



**Estyn**

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

# Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiadau thematig cenedlaethol

## 2013

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau arbenigol annibynnol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ Cymraeg i oedolion;
- ▲ dysgu yn y gwaith; a
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

## Rhagair

Gobeithiaf y bydd y crynodeb hwn, a'r gyfres lawn o adroddiadau y mae wedi'i seilio arni, yn addysgiadol ac yn berthnasol i'ch gwaith os ydych yn rhan o'r system addysg yng Nghymru. Mae'n cynrychioli coladiad o dystiolaeth ar safonau ac yn amlinellu argymhellion penodol ar gyfer sut i wella. Dylai ysgolion a darparwyr fod eisiau gwybod beth mae Estyn yn disgwyl ei ganfod mewn arolygiadau: mae'r coladiad hwn yn crynhoi'r disgwyliadau hynny o ran yr agweddau sy'n cael eu cwmpasu.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn 2013 yn cynnwys ystod o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Maent yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar gyfer yr aelodau ieuengaf a hynaf o'n cymdeithas, o arfarnu datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen i adolygu effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn canolfannau Cymraeg i oedolion. Rydym wedi adrodd ar ystod o feysydd pwnc hefyd, mewn ysgolion ac mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, yn amrywio o adeiladu mewn addysg ôl-16 i addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd. Rwy'n falch ein bod wedi gallu cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar ein hadroddiad ar effaith absenoldeb athrawon.

Mae Estyn yn cydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio rhaglen o adroddiadau thematig y gofynnir amdanynt yn y llythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r rhaglen hon yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ac, eleni, roedd yn cynnwys adroddiadau ar safonau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â lleihau effaith amddifadedd ar welliant addysgol.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn 2013 yn mynd i'r afael â materion sydd o bryder canolog i rai sy'n llunio polisïau. Hefyd, bwriad ein hadroddiadau yw cyfrannu at y meddylfryd a'r drafodaeth ehangach am ddatblygu polisi mewn meysydd fel adolygu asesu a'r cwricwlwm. Mae'r rhaglen o adroddiadau thematig sydd i ddod yn 2014 yn addo i fod yr un mor addysgiadol a dylanwadol, ac mae adolygiadau yn mynd rhagddynt yn ymwneud â phynciau mor amrywiol â bwlio, presenoldeb ysgol a chymorth rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, yn ogystal â'r adroddiadau nesaf yn ein cyfres ar lythrennedd a rhifedd.

Gobeithiwn y caiff ein hadroddiadau thematig eu defnyddio'n eang gan ddarparwyr i wella eu harfer er mwyn gwella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru. Mae'r crynodeb hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd hyd yn hyn eleni yn dod â dadansoddiadau manwl ac argymhellion at ei gilydd o bob adroddiad er mwyn i chi allu cyfeirio atynt yn rhwydd. Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan: <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiadau-thematig/adroddiadau-diweddar/>.

**Ann Keane**

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

<b>Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianeg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru – Ionawr 2013</b>	<b>1</b>
<b>Adolygiad cychwynnol o effeithiolrwydd rhaglenni Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith Llywodraeth Cymru – Ionawr 2013</b>	<b>4</b>
<b>Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen – Ionawr 2013</b>	<b>6</b>
<b>Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth gwaelodlin – Mehefin 2013</b>	<b>9</b>
<b>Gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 – Mehefin 2013</b>	<b>12</b>
<b>Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd – Mehefin 2013</b>	<b>15</b>
<b>HMS Statudol mewn ysgolion – Mehefin 2013</b>	<b>18</b>
<b>Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion – Gorffennaf 2013</b>	<b>20</b>
<b>Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd – Gorffennaf 2013</b>	<b>23</b>
<b>Effaith absenoldeb athrawon – Medi 2013</b>	<b>26</b>
<b>Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol – Medi 2013</b>	<b>30</b>
<b>Hyfforddiant ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig – Hydref 2013</b>	<b>33</b>
<b>Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol – Rhagfyr 2013</b>	<b>36</b>
<b>Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen – Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir – Rhagfyr 2013</b>	<b>39</b>
<b>Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol – Rhagfyr 2013</b>	<b>44</b>

**Teitl: Adolygiad o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer peirianeg mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yng Nghymru – Ionawr 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Mae llawer o enghreifftiau o arfer dda ac weithiau arfer ragorol i'w gweld mewn colegau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o weithio gyda diwydiant i ddatblygu technoleg uwch, darparu cyfleoedd hyfforddiant peirianeg newydd ar gyfer dysgwyr a chwmnïau, a datblygu cysylltiadau mwy effeithiol gydag ysgolion i gyflwyno disgyblion i dechnolegau peirianeg.
- 2 Mae'r gyfradd y mae dysgwyr peirianeg mewn colegau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arni yn agos at y cyfartaledd ar gyfer yr holl feysydd dysgu yn y sector AB ac uwchlaw'r cyfartaledd yn y sector dysgu yn y gwaith. Mae'r gyfradd wella dros y blynyddoedd diwethaf yn debyg i'r gwelliant yn yr holl feysydd dysgu yn ystod yr un cyfnod.
- 3 Yn 2009-2010, roedd rhaglenni peirianeg AB yn safle 11 o'r 20 o feysydd dysgu o ran cyfraddau llwyddo dysgwyr. Mewn dysgu yn y gwaith, roedd rhaglenni peirianeg yn y 3ydd safle o'r 11 o feysydd dysgu o ran cyfraddau llwyddo fframwaith dysgwyr<sup>1</sup>.
- 4 Yn y gwersi a'r sesiynau a arsylwyd yn ystod yr arolwg, roedd ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn dda ar y cyfan, ac weithiau'n rhagorol. Mae dysgwyr yn astudio mewn adeiladau o ansawdd da, ac mae digon o ddeunyddiau ac offer iddynt ar y cyfan.
- 5 Mae mwyafrif y dysgwyr peirianeg yn gwneud cynnydd da o un lefel astudio i'r nesaf. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynd ymlaen i ddilyn rhaglenni ar lefel uwch, ac yn ennill prentisiaethau neu gyflogaeth ym maes peirianeg neu brentisiaeth o natur dechnegol. Fodd bynnag, mae cyfran y dysgwyr peirianeg sy'n gadael rhaglenni i gyrchfannau anhysbys, sef 30% ar gyfer AB a 21% ar gyfer dysgu yn y gwaith, yn rhy uchel, er bod hyn yn gyffredinol gyson â meysydd dysgu eraill. O'r herwydd, mae'n anodd barnu pa mor llwyddiannus yw deilliannau rhaglenni peirianeg o ran llwybrau gyrfa'r holl ddysgwyr ar ôl iddynt orffen eu cyrsiau.
- 6 Yn gyffredinol, mae'r cwricwlwm a gynigir gan ddarparwyr peirianeg yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng dyheadau dysgwyr ac anghenion diwydiant lleol a rhanbarthol. Mae cyrsiau mewn cynnal cerbydau modur yn denu dysgwyr i astudio peirianeg mewn ysgolion a cholegau, a llawer ohonynt yn mynd ymlaen i ddilyn rhaglenni peirianeg eraill.
- 7 Ym mwyafrif y darparwyr, gall dysgwyr fynd ymlaen i ddilyn rhaglenni AU arbenigol ar lefel 4 trwy drefniadau rhyddfrait gyda'r sector prifysgolion. Fodd bynnag, mae llawer o'r trefniadau rhyddfrait ar gyfer y rhaglenni hyn yn rhy fiwrocraidd a chyfyngol.

<sup>1</sup> Mewn dysgu yn y gwaith, mae'r cymhwyster fframwaith yn cynnwys CGC dysgwyr a medrau allweddol ar y lefel briodol a'u tystysgrif dechnegol. Rhaid cyflawni pob rhan o'r fframwaith i'r dysgwr lwyddo yn y fframwaith.

- 8 Mae darparwyr wedi ymestyn eu rhaglenni amser llawn ac yn aml yn cynnwys Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC). Mae'r rhaglen llwybr i brentisiaeth (LiB) yn dod yn rhaglen lwyddiannus i baratoi dysgwyr ar gyfer rhaglenni prentisiaeth. Mae'r brif raglen ddysgu, mewn partneriaeth â rhaglen CBC yr ysgolion, yn gwella'r cyfleoedd i ddysgwyr ac yn meithrin cysylltiadau gwell rhwng darparwyr ac ysgolion.
- 9 Mae colegau AB wedi dechrau darparu rhaglenni peirianeg sy'n gwella nifer o'r technolegau newydd, fel ffotoneg, deunyddiau cyfansawdd a thechnolegau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ynni. Fodd bynnag, mae graddau'r ymglymiad hwn yn fach ar y cyfan.
- 10 Nid yw digon o golegau a darparwyr dysgu yn y gwaith yn herio eu dysgwyr i gymryd rhan mewn cystadlaethau allanol fel ymweliadau rhanbarthol a chenedlaethol. Er y bu rhai gwelliannau, nid oes gan Gymru gynrychiolaeth ddigonol o hyd yn nhîm y DU ar gyfer y Gemau Olympaidd Sgiliau.
- 11 Mae dysgwyr peirianeg yn elwa ar gysylltiadau eu darparwr gyda'r diwydiant peirianeg. Maent yn elwa ar gyfraniad staff addysgu ac asesu at brosiectau diwydiannol 'byw', yn enwedig pan fyddant yn gweld y technolegau diweddaraf yn cael eu defnyddio'n ymarferol. Gyda dim ond 5% o ymrestriadau mewn colegau AB, mae peirianeg yn cyfrannu tua 23% o weithgarwch masnachol. Mae'r llwybr peirianeg mewn peirianeg yn y gwaith yn cyfrannu'n dda mewn perthynas â holl weithgarwch y darparwr. Mae cyrsiau'n cynrychioli 16% yn unig o ymadawyr, gyda pheirianeg yn cyfrannu 44% o'r holl weithgarwch busnes gan amlaf.
- 12 Yn gyffredinol, mae dysgwyr peirianeg yn mynegi llawer o foddhad â'u rhaglen astudio, yn enwedig y sesiynau ymarferol. Maent yn mynegi lefelau is o foddhad gyda dosbarthiadau theori ffurfiol, yn enwedig y rhai y mae angen lefelau uwch o fathemateg, llythrennedd a gwyddoniaeth ar eu cyfer. Mae gormod ohonynt yn tanbrizio pwysigrwydd medrau yn y meysydd hynny i lwyddo yn eu rhaglenni peirianeg.
- 13 Mae cystadleuaeth gynyddol am leoedd ar rai rhaglenni peirianeg gan ddysgwyr. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd gan y darparwr gysylltiadau da gyda chyflogwyr. Er bod perfformiad rhwydweithiau ardal lleol a'r cysylltiadau ag ysgolion/ colegau/ darparwyr dysgu yn y gwaith yn gwella ar y cyfan, ni all pob darparwr ddenu digon o ymadawyr ysgol gyda'r medrau cywir i yrfaoedd peirianeg. Yn rhy aml, mae ysgolion yn gweld gyrfa mewn peirianeg yn ddewis ar gyfer disgyblion llai abl, a bechgyn yn bennaf.
- 14 Er gwaethaf prosiectau amrywiol dros y blynyddoedd, fel Menywod i Wyddoniaeth a Pheirianeg (WISE), mae diffyg cynrychiolaeth o ddysgwyr benywaidd ar raglenni peirianeg o hyd, lle maent yn nodweddiadol yn cyfrif am lai na 10% o ddysgwyr.
- 15 Mae'r cysylltiadau rhwng colegau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gryfder arbennig. Fodd bynnag, mae sectorau AB a dysgu yn y gwaith yn ystyriol o gystadleuaeth gan ddarparwyr eraill o ran eu gweithgarwch busnes a'u gallu i gadw staff technegol, athrawon ac aseswyr o ansawdd da. Gall hyn gael effaith negyddol ar raddau'r cydweithio.

## Argymhellion

Er mwyn parhau i wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant peirianeg mewn colegau AB a darparwyr dysgu yn y gwaith:

### **dylai Llywodraeth Cymru:**

- A1 adolygu'r trefniadau i alluogi colegau a darparwyr eraill i gynnig rhaglenni HNC (D) yn eu meysydd arbenigol heb fod angen gwneud trefniadau rhyddfrait gyda'r sector prifysgolion; ac
- A2 ystyried cynnwys y mentrau a'r prosiectau peirianeg amrywiol ledled Cymru o fewn strategaeth genedlaethol gyffredinol ar addysg a hyfforddiant peirianeg i Gymru, y gall y diwydiant peirianeg a'r holl randdeiliaid eraill ei chefnogi.

### **Dylai colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith:**

- A3 wella'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arni;
- A4 monitro cyrchfannau'r holl ddysgwyr yn agosach pan fyddant yn gadael eu rhaglenni;
- A5 gwella trefniadau partneriaeth gydag ysgolion fel y gall yr holl ddisgyblion:
- fanteisio ar well gwybodaeth am gyfleoedd addysg, hyfforddiant a gyrfa mewn peirianeg; a
  - deall bod angen medrau rhifedd, llythrennedd a gwyddoniaeth ffisegol ar ddisgyblion ar lefel briodol i lwyddo mewn peirianeg;
- A6 parhau i ddatblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod pob dysgwr, yn cynnwys menywod, sydd â diddordeb mewn gyrfaedd yn seiliedig ar beirianeg, yn gallu dechrau ar raglenni ar lefel sydd fwyaf priodol iddynt;
- A7 datblygu strategaethau i alluogi ymateb cyflymach a mwy priodol i anghenion diwydiant ar gyfer hyfforddiant pwrpasol ac ymgynghoriaeth wedi'i harwain gan gyflogwyr; ac
- A8 annog mwy o ddysgwyr i ddefnyddio eu medrau peirianeg i gymryd rhan mewn cystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol a gwella cynrychiolaeth Cymru yn nhîm y DU ar gyfer y Gemau Olympaidd Sgiliau.

**Teitl: Adolygiad cychwynnol o effeithiolrwydd rhaglenni  
Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith Llywodraeth Cymru – Ionawr  
2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Nid yw'r broses gyfeirio yn drylwyr a phan mae'n effeithiol, mae'n dibynnu ar berthnasoedd personol yn hytrach na systemau effeithlon. Mae ansawdd y wybodaeth a gaiff dysgwyr a darparwyr gan asiantaethau cyfeirio yn aml yn anghyflawn ac nid yw'n helpu darparwyr i weddu rhaglenni priodol i ddysgwyr.
- 2 Mae rheolau cymhwyster a chyfnod byr y rhaglenni yn aml yn cyfyngu ar lefelau'r dysgu a'r dilyniant y gall dysgwyr ei wneud yn realistig. Caiff cyflawni deilliannau targed i ddysgwyr ac i ddarparwyr fel ei gilydd ei rwystro gan ddiffyg profiad gwaith a chyfleoedd am gyflogaeth gynaliadwy. Yn aml, nid yw cyflogwyr yn deall y rhaglenni'n llawn.
- 3 At ei gilydd, nid yw targedau contract yn cael eu bodloni ac fe gaiff dysgwyr eu haddysgu mewn grwpiau sy'n rhy fach i fod yn hyfyw yn addysgol neu'n economaidd. Mae darparwyr, yr AdAS a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys yr anawsterau hyn.
- 4 Ar y cyfan, dengys data Llywodraeth Cymru fod safonau a chyfraddau dilyniant ar bob rhaglen yn ddigonol ar eu gorau. Mae niferoedd y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i hyfforddiant neu gyflogaeth arall yn uwch na'r rhaglenni Hyfforddeiaeth nag o'r rhaglenni Camau at Waith.
- 5 Mae mwyafrif y darparwyr yn nodi a chofnodi anghenion dysgwyr, yn mynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu ac yn gwneud eu gorau i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Mae darparwyr yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i sicrhau amrywiaeth o gymorth i ddysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddarparwyr, ni chaiff y rhwystrau difrifol sy'n wynebu cleientiaid eu nodi'n ddigon cynnar.
- 6 At ei gilydd, mae safon y cymorth a ddarperir o ran medrau sylfaenol a llythrennedd yn rhy amrywiol. Yn yr achosion gorau, nodir anghenion cleientiaid unigol, a chyflwynir cymorth dysgu ar ddechrau eu rhaglenni hyfforddi. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, ni chaiff y man cychwyn a'r cynnydd a wna dysgwyr o ran datblygu eu medrau llythrennedd eu nodi na'u holrhain yn ôl eu trefn. Mae gwelliant mewn llythrennedd yn gyfyngedig o ganlyniad.
- 7 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi addasu eu harferion gweithio i ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio at y rhaglenni Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith. Mae darparwyr yn gweithio'n dda o fewn eu consortiwm a gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys cyflogwyr, i ddatblygu'r rhaglenni.
- 8 Mae'r holl ddarparwyr wedi rhoi systemau gwybodaeth reoli soffistigedig ar waith i gofnodi deilliannau lefel uchel ar gyfer dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn lledaenu'r wybodaeth hon ar draws y consortiwm, ond nid yw pob un ohonynt yn monitro'r manylion am gynnydd dysgwyr yn ddigon da i helpu dysgwyr unigol i lwyddo



## Argymhellion

Er mwyn gwella darpariaeth rhaglenni hyfforddi Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith:

### **dylai Llywodraeth Cymru:**

- A1 wneud yn siŵr bod asiantaethau cyfeirio yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r rhaglenni hyfforddi sydd ar gael yn ei ddarparu a pha raglenni sy'n addas ar gyfer dysgwyr unigol;
- A2 gweithio'n agos gyda darparwyr i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y nifer sy'n dilyn rhaglenni Hyfforddeiaeth a Chamau at Waith; a
- A3 gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn meddu ar ddealltwriaeth well o'r rhaglenni.

### **Dylai darparwyr hyfforddi:**

- A4 wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn cael ei roi ar lwybrau hyfforddi priodol;
- A5 annog pob dysgwr i ddatgelu unrhyw wybodaeth a allai gael effaith andwyol ar nodi rhwystrau dysgu a chyflogaeth;
- A6 gwella llwybrau dilyniant ar yr holl raglenni;
- A7 gwneud Cynlluniau Dysgu Unigol yn ddigon manwl a heriol ar gyfer dysgwyr;
- A8 gwella profion medrau sylfaenol ac olrhain cynnydd;
- A9 gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu lleoliadau gwaith a chymunedol addas; a
- A10 sicrhau bod cyflogwyr yn cael gwybod yn llawn am ofynion hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith.

### **Dylai'r holl asiantaethau cyfeirio:**

- A11 wella ansawdd y wybodaeth gychwynnol a roddir i ddarparwyr hyfforddiant am ddysgwyr yn y broses gyfeirio;
- A12 annog yr holl ddysgwyr i ddatgelu unrhyw wybodaeth a allai gael effaith andwyol ar nodi rhwystrau dysgu neu gyflogaeth; a
- A13 gwella rhannu gwybodaeth rhwng y gwahanol asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

## Teitl: Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen – Ionawr 2013

### Prif ganfyddiadau

- 1 Yn y mwyafrif o ysgolion Saesneg a arolygwyd yn ystod 2010-2012, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd boddhaol o ran siarad Cymraeg a gwrando ar Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig yn ystod sesiynau grŵp cyfan. Mae gan blant agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg. Mae eu medrau siarad a gwrando'n datblygu'n dda ond nid yw medrau darllen ac ysgrifennu wedi'u datblygu digon yn y Cyfnod Sylfaen. Mewn un o bob deg ysgol, mae plant yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gaffael medrau Cymraeg. Yn yr ychydig ysgolion hyn, mae gan bron yr holl blant ddealltwriaeth dda o'u gwaith Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ystod o eiriau a phatrymau brawddegau yn gywir, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 gallant ddarllen yn gywir a chyda mynegiant.
- 2 Er bod safonau hefyd wedi gwella'n gyffredinol mewn lleoliadau Saesneg nas cynhelir yn ystod 2010-2012, mae cynnydd plant yn y Gymraeg yn achos pryder mewn mwy na thraean o'r lleoliadau hyn. Yn y lleoliadau hyn, yn gyffredinol, mae plant yn dangos diffyg hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i sesiynau grŵp cyfan byr, fel cyfnodau cofrestru neu sesiynau canu. Nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg wrth chwarae neu ddysgu heb gael eu hannog gan oedolion.
- 3 Mae Datblygu'r Gymraeg yn dda yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr arolwg hwn. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r drefn ddyddiol. Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn dysgu defnyddio amrywiaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg â'i gilydd. Mae'r ysgolion a'r lleoliadau mwyaf effeithiol yn datblygu Cymraeg plant trwy wella eu hyder, eu hunan-gred a'u hagweddau at ddysgu Cymraeg. Mae ymarferwyr (athrawon a staff cymorth eraill) yn cynllunio ystod o gyfleoedd i bob plentyn ddysgu Cymraeg yn y dosbarth a'r tu allan. Mae'r gwaith mwyaf effeithiol yn achub ar gyfleoedd i gyflwyno Cymraeg yn chwe maes dysgu arall cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.
- 4 Mae plant yn gwneud y cynnydd gorau wrth siarad Cymraeg a gwrando ar Gymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn gofyn ac ateb cwestiynau syml yn gywir ac yn hyderus, ond nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn aml wrth chwarae y tu allan. Yn gyffredinol, mae plant yn gwneud llai o gynnydd wrth ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r pwyslais priodol ar ddatblygu medrau llafar da wrth ddysgu'r Gymraeg yn gynnar. Mae lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cyflwyno gweithgareddau darllen ac ysgrifennu Cymraeg a gynlluniwyd yn systematig, sy'n aml yn adlewyrchu cynnydd y plant wrth ddarllen ac ysgrifennu Saesneg. Pan fo plant yn ysgrifennu am 'resymau go iawn', fel gwneud rhestr siopa cyn mynd i'r siopau neu wahodd ffrindiau i'w parti, maent yn dangos llawer o ddiddordeb ac yn gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu Cymraeg.
- 5 Yn y rhan fwyaf o ysgolion a arolygwyd yn 2010-2012, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion nid yw'r staff yn neilltuo digon o amser i addysgu Cymraeg. Mewn rhai o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw, nid yw'r staff yn neilltuo digon o amser

addysgu uniongyrchol i gyflwyno maes Datblygu'r Gymraeg yn effeithiol. Nid yw ymarferwyr yn ymarfer ac ailadrodd geiriau Cymraeg newydd yn rheolaidd nac yn cynnig digon o gyfleoedd i blant ymarfer eu Cymraeg. Mewn sesiynau lle mae ansawdd yr addysgu Cymraeg yn rhagorol, mae'r athrawon yn tanio dychymyg y plant, mae'r gweithgareddau'n ysgogol, ac mae'r plant yn ymateb yn frwdfrydig, yn ymestyn eu geirfa ac yn dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

- 6 Yn gyffredinol, pan fo'r ymarferwyr eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, mae'r plant yn gwneud cynnydd gwell wrth ddysgu Cymraeg. Mae'r ymarferwyr hyn yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ar draws pob maes dysgu. Pan na cheir unrhyw ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn ysgol neu leoliad, mae'r defnydd o'r Gymraeg gan y staff yn fwy cyfyngedig fel arfer. Mae hyn yn golygu bod y plant yn clywed llai o Gymraeg ac yn cael llai o gyfle i'w hymarfer. Pan geir bylchau yng ngwybodaeth ymarferwyr, yn enwedig o ran gramadeg, goslef ac ynganiad Cymraeg, gall plant ddysgu siarad neu ynganu'n anghywir. Mewn rhai achosion, ni all yr ymarferwyr barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigon hir, ac ychydig iawn o Gymraeg achlysurol<sup>2</sup> maen nhw'n ei ddefnyddio gyda'r plant. Ychydig iawn o ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl a geir yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio rhaglenni teledu neu DVDau Cymraeg i geisio gwneud iawn am hyn, fel bod y plant yn gallu clywed mwy o Gymraeg llafar. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn yn sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn dysgu.
- 7 Nid yw'n ofynnol i ysgolion gofnodi cynnydd plant unigol o ran Datblygu'r Gymraeg ac nid oes data asesu ffurfiol ar gael ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chenedlaethol. Mae hyn yn golygu nad oes modd olrhain cynnydd plant o ran y Gymraeg o ddechrau eu haddysg hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ymlaen i gyfnod allweddol.
- 8 Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda o leiaf yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau a'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Mae arweinwyr effeithiol yn gweithredu maes Datblygu'r Gymraeg yn drylwyr yn y Cyfnod Sylfaen. Mae lleiafrif o'r ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio dull cyson o addysgu'r Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn ymroi'n llwyr i sicrhau bod pob plentyn yn dysgu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn hyderus.
- 9 Nid yw arweinwyr yn derbyn digon o gymorth a hyfforddiant ar sut i werthuso effeithiolrwydd addysgu a dysgu ym maes Datblygu'r Gymraeg. Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy'n cynnig hyfforddiant i benaethiaid ac uwch arweinwyr ar werthuso safonau a darpariaeth o ran y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.
- 10 Pan fo ymarferwyr mewn ysgolion yn derbyn hyfforddiant a chymorth rheolaidd, maent yn fwy hyderus wrth addysgu'r Gymraeg. Fodd bynnag, ceir amrywiad eang o ran faint o hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr mewn gwahanol awdurdodau. Yn yr achosion gorau, mae ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant diweddarau a chymorth rheolaidd, ond mae llawer sydd wedi derbyn hyfforddiant cyfyngedig yn unig i ddatblygu eu Cymraeg yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Prin iawn yw'r cyfleoedd hyfforddi yn y Gymraeg sydd ar gael i ymarferwyr yn y rhan fwyaf o leoliadau, yn aml oherwydd anawsterau yn ymwneud â rhyddhau staff i ddilyn

---

<sup>2</sup> Mae Cymraeg achlysurol yn cyfeirio at ryngweithio rhwng oedolion a phlant sy'n digwydd yn naturiol mewn sefyllfa heb ei strwythuro lle mae oedolion yn trosglwyddo gwybodaeth newydd neu'n rhoi cyfle i blant ymarfer medr cyfathrebu.

hyfforddiant a chost talu staff i ddilyn hyfforddiant y tu allan i'w horiau gwaith arferol. Nid yw pob awdurdod lleol yn rhannu arfer dda ym maes Datblygu'r Gymraeg yn ddigon effeithiol gydag ysgolion a lleoliadau.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion a lleoliadau:

- A1 sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i addysgu'r Gymraeg yn uniongyrchol;
- A2 cynllunio cyfleoedd da i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd dysgu eraill ac mewn gweithgareddau awyr agored;
- A3 cynyddu lefel y medrau sydd eu hangen i ddatblygu Cymraeg ysgrifenedig disgyblion;
- A4 monitro darpariaeth a chynnydd o ran Datblygu'r Gymraeg; a
- A5 darparu cyfleoedd i ymarferwyr wella eu medrau Cymraeg a'u medrau addysgu iaith.

### Dylai awdurdodau lleol:

- A6 ddarparu cymorth a hyfforddiant mewn Datblygu'r Gymraeg i benaethiaid, arweinwyr ac ymarferwyr arweiniol y Cyfnod Sylfaen;
- A7 sicrhau bod mwy o gymorth a hyfforddiant yn y Gymraeg ar gael i ymarferwyr, yn enwedig mewn lleoliadau nas cynhelir; a
- A8 rhannu arfer dda o ran Datblygu'r Gymraeg.

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A9 adolygu pa un a ddylai Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen fesur cynnydd plant o ran Datblygu'r Gymraeg;
- A10 datblygu hyfforddiant iaith ac addysgeg ychwanegol yn y Gymraeg i ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir; a
- A11 darparu mwy o ddeunyddiau enghreifftiol o arfer dda ym maes Datblygu'r Gymraeg.

**Teitl: Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: astudiaeth  
gwaelodlin – Mehefin 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf mewn cyfres i edrych ar safonau mewn rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ac ar y modd y mae ysgolion yn datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'n cynnig gwaelodlin ar gyfer adroddiadau diweddarach, a fydd yn canolbwyntio ar effaith cydran rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.
- 2 Yn 2012, cyflawnodd pedwar o bob pump o ddisgyblion y lefel ddisgwyliedig yn asesiadau athrawon o fathemateg y Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3. Roedd hyn ychydig yn well na blynyddoedd blaenorol. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyffredinol.
- 3 Ym mhroffion llythrennedd mathemategol PISA 2009 ar gyfer disgyblion 15 oed, ni chyrhaeddodd 20% waelodlin PISA lefel 2 yn y DU yn gyffredinol. Mae lefel 2 mewn PISA yn golygu gallu ateb cwestiynau syml yn ymwneud â chyd-destunau cyfarwydd. Yng Nghymru, ni wnaeth 26% o ddisgyblion gyrraedd y lefel hon. Cymru oedd â'r ganran isaf o ddisgyblion yn cyflawni'n uchel mewn llythrennedd mathemategol hefyd o gymharu â gwledydd eraill yn y DU.
- 4 Mewn tua dwy o bob pump o'r ysgolion cynradd a hanner o'r ysgolion uwchradd a arolygwyd yn 2010-2012, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd gwan neu nid ydynt yn eu cymhwyso'n ddigon da ar draws y cwricwlwm. Prin fu'r cynnydd mewn rhifedd disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf.
- 5 Mae mwyafrif o ddisgyblion yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn meddu ar fedrau mesur a data cadarn, ond nid oes gan ryw hanner o'r disgyblion amgyffrediad cadarn o fedrau rhif sylfaenol ac nid ydynt yn galw i gof ffeithiau rhif allweddol yn rhwydd.
- 6 Mewn llawer o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o ddisgyblion yn cymhwyso medrau rhifedd ar lefel uchel. Yn rhy aml, caiff disgyblion anhawster yn galw i gof ffeithiau rhif sylfaenol ac nid oes ganddynt strategaethau effeithiol i'w helpu â chyfrifiadau yn y pen. Mae anhawster wrth alw i gof ffeithiau rhif yn arafu gallu disgyblion i wneud cyfrifiadau sylfaenol. Mae llawer o'r ysgolion yn symud yn rhy gyflym i gyflwyno techneg ysgrifenedig ar gyfer datrys problemau rhif cyn i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth gadarn o werth rhif a lle. Caiff llawer o ddisgyblion anhawster yn gweithio gyda degolion, ffracsiynau a chanrannau, ac nid ydynt yn deall y berthynas rhwng  $\frac{2}{5}$ , 0.4 a 40%, er enghraifft. Mae diffyg dealltwriaeth disgyblion o ffeithiau a pherthnasoedd rhifiadol allweddol yn golygu eu bod yn cael ei chael yn anodd cymhwyso medrau rhesymu rhifiadol i ddatrys problemau ysgrifenedig, yn enwedig problemau sy'n cynnwys mwy nag un broses.
- 7 At ei gilydd, mae lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt nad ydynt naill ai'n meddu ar fedrau rhifedd neu nid ydynt yn eu cymhwyso yn unol â disgwyliadau cydran rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Yn rhy

aml, mae cydlynwyr rhifedd yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau mesur a data disgyblion, ond nid ydynt yn rhoi digon o sylw i'r modd y mae'r ysgol yn datblygu medrau rhif a rhesymu rhifiadol disgyblion mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm.

- 8 Nid yw tua hanner o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn cofrestru disgyblion cyfnod allweddol 3 ar gyfer cymwysterau Cymhwysio Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) neu maent yn cofrestru disgyblion Blwyddyn 9 ar gyfer lefel 1 yn unig. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn astudio ar lefel sy'n addas i'w hanghenion unigol. Mewn mwyafrif o ysgolion, treulir gormod o amser ar gwblhau'r gwaith papur ar gyfer y cymwysterau hyn yn hytrach nag ar wella medrau gwirioneddol disgyblion.
- 9 Nid oes gan lawer o ysgolion bolisi clir ar sut i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Yn rhy aml, nid oes dull ysgol gyfan cytûn i adeiladu medrau rhifedd disgyblion nac i wneud cyfrifiadau sylfaenol. Mae hyn yn arwain at ddiffyg cysondeb mewn defnyddio medrau rhifedd ar draws dosbarthiadau ac adrannau sy'n drysu disgyblion. Ychydig iawn o ysgolion sydd â chynlluniau manwl, annibynnol ar gyfer datblygu rhifedd sy'n dangos sut caiff mentrau a strategaethau penodol eu cydlynu mewn dull ysgol gyfan.
- 10 Mewn ychydig iawn o'r ysgolion cynradd y gwnaed arolwg ohonynt, mae darpariaeth ar gyfer rhifedd yn hynod effeithiol ac mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cynlluniedig a dychmygus i gymhwyso a datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, caiff medrau rhifedd eu haddysgu yn systematig mewn mathemateg a rhoddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrllon mewn pynciau heblaw mathemateg. Yn yr ysgolion cynradd eraill y gwnaed arolwg ohonynt, mae disgyblion yn tueddu i ailadrodd medrau ar yr un lefel flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y rheswm am hyn yn aml yw'r ffaith nad yw cynlluniau gwaith yn cysylltu'n ddigon da â disgwyliadau'r cwricwlwm mathemateg nac â fframwaith rhifedd graddol.
- 11 Dim ond ychydig o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw sy'n rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i rhifedd yn eu cynlluniau gwella ysgol. Mae'r ysgolion hyn fel arfer wedi cynnal archwiliad trylwyr o ddarpariaeth, gan arwain at gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn yr ysgolion hyn, mae dull cydlynus a chytûn o addysgu a dysgu rhifedd. Fodd bynnag, dim ond dechrau cynllunio ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm y mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd. Er bod mwyafrif yr adrannau mathemateg yn darparu ystod addas o brofiadau i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn mewn pynciau eraill, fel gwyddoniaeth a daearyddiaeth, yn aml yn rhy gyfyng ac yn cynnwys gwaith graffigol neu waith data syml yn bennaf.
- 12 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae safon asesu a marcio gwaith disgyblion gan athrawon yn gyson uchel, lle caiff polisi cytûn ei ddilyn gan bob aelod o staff. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn asesu gwaith yn erbyn cynllun marcio rhifedd cytûn ac yn rhoi awgrymiadau priodol ar sut i wella gwaith ymhellach. Lleiafrif o ysgolion cynradd yn unig a rhai ysgolion uwchradd sydd wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain a chofnodi medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm y tu hwnt i fathemateg. Pan fydd gan ysgolion systemau effeithiol, mae athrawon yn glir ynglŷn

â'r medrau y mae pob disgybl wedi'u meistroli neu heb eu meistroli ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio mwy o weithgareddau atgyfnerthu. Mae rhai awdurdodau lleol yn creu deunyddiau o ansawdd uchel i gefnogi eu hysgolion i asesu ac olrhain medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

- 13 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gysylltiadau sefydledig gyda'u hysgolion cynradd neu uwchradd partner. Mae gan lawer o ysgolion cynradd ac uwchradd unedau gwaith pontio cyffredin, ond lleiafrif ohonynt yn unig sy'n canolbwyntio ar rifedd, ac ychydig iawn ohonynt yn unig sy'n trefnu gweithgareddau datblygu ar y cyd sy'n canolbwyntio ar ddull cydlynus o ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Ychydig iawn o ysgolion cynradd sy'n trosglwyddo gwybodaeth am safonau disgyblion mewn rhifedd i ysgolion uwchradd, er eu bod yn trosglwyddo gwybodaeth am safonau mewn mathemateg ar y cyfan.
- 14 Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd ond dim ond tua hanner o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw yn darparu rhaglenni ymyrraeth rhifedd effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n gweld mathemateg yn her. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sydd â rhaglen ymyrraeth yn olrhain cynnydd disgyblion yn dda yn ystod y rhaglen ac mae mwyafrif ohonynt yn parhau i fonitro cynnydd disgyblion ar ôl diwedd yr ymyrraeth ac yn rhoi cymorth ychwanegol os bydd angen.
- 15 Mewn lleiafrif o gynlluniau gwella ysgolion cynradd ac uwchradd, mae ffocws ar feithrin gallu staff ac arweinwyr i gefnogi rhifedd. Mae angen hyfforddiant a chymorth ar leiafrif sylweddol o athrawon i gyflwyno cydran rhifedd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. At ei gilydd, bu llai o hyfforddiant i athrawon ddatblygu rhifedd disgyblion nac ar gyfer llythrennedd. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynnal archwiliad ffurfiol o hyder a chymhwysedd staff mewn addysgu rhifedd.
- 16 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cynradd a llawer o ddisgyblion uwchradd yn credu bod medrau rhifedd a llythrennedd yr un mor bwysig i lwyddo yng ngham nesaf addysg neu gyflogaeth. Dywed rhai o ddisgyblion cyfnod allweddol 3 eu bod yn ei chael yn anodd cymhwyso eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill oherwydd, er eu bod yn dysgu medrau mewn gwersi mathemateg, nid yw eu dealltwriaeth yn ddigon cadarn i'w cymhwyso mewn cyd-destunau anghyfarwydd. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd rhoi enghreifftiau o'r modd y mae rhifedd yn berthnasol i'w bywydau bob dydd.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion:

- A1 wneud yn siŵr bod disgyblion yn meistroli medrau rhif sylfaenol yn drylwyr mewn gwersi mathemateg a chael strategaethau effeithiol i alw ffeithiau rhif hanfodol i gof yn gyflym ac yn gywir;
- A2 cytuno ar ddulliau ysgol gyfan o wneud cyfrifiadau syml;
- A3 rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio medrau rhifedd, yn enwedig mewn medrau rhif a rhesymu rhifiadol, mewn pynciau ar draws y cwricwlwm;

- A4 gwneud yn siŵr bod gweithgareddau rhifedd yn ymestyn disgyblion yn briodol, gan gynnwys y rhai mwy abl;
- A5 asesu ac olrhain cynnydd disgyblion mewn medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm a defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio gweithgareddau rhifedd gwell;
- A6 cynllunio gweithgareddau pontio ysgol gynradd/uwchradd i gefnogi cysondeb a dilyniant ym medrau rhifedd disgyblion;
- A7 rhoi cyfleoedd i gydlynwyr rhifedd ac adrannau mathemateg weithio gydag athrawon eraill i wella eu gwybodaeth, eu medrau a'u hyder i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion; a
- A8 monitro ac arfarnu effaith strategaethau ar gyfer gwella rhifedd.
- Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**
- A9 gefnogi ysgolion i helpu staff i wella eu gwybodaeth, eu medrau a'u hyder i ddatblygu rhifedd disgyblion trwy eu pynciau; a
- A10 rhannu arfer orau rhwng ysgolion.

**Teitl: Gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 – Mehefin 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Yn y mwyafrif o wersi a arsylwyd fel rhan o'r arolwg hwn, roedd safonau mewn gwyddoniaeth yn dda neu'n well yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Dim ond mewn ychydig o wersi yr oedd disgyblion yn cyflawni safonau rhagorol. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wyddoniaeth, nac yn eu medrau ysgrifennu a rhifedd.
- 2 Mae addysgu yn dda neu'n well yn y mwyafrif o wersi yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Yn yr ychydig o wersi rhagorol, mae disgwyliaid uchel gan athrawon o'u disgyblion, gan gynnwys y disgyblion mwy galluog. Mae'r athrawon hyn yn cynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol sy'n cipio dychymyg y disgyblion ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gyffro ynghylch dysgu gwyddoniaeth. Mewn lleiafrif o wersi, mae gormod o gyfarwyddyd gan yr athro yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion archwilio'u syniadau eu hunain, a rhoddir tasgau rhy hawdd i'r disgyblion, fel copïo gwybodaeth o wefannau, sy'n cyfyngu ar ddatblygu eu dealltwriaeth wyddonol. Yn y mwyafrif o wersi, nid yw disgyblion mwy galluog yn cael eu hymestyn digon. Dim ond mewn ychydig iawn o achosion y mae disgyblion yn cael cyfle i fynd ar drywydd eu diddordebau gwyddonol eu hunain. Mewn ychydig o wersi yng nghyfnod allweddol 2, nid oes dealltwriaeth sicr o wyddoniaeth gan athrawon, ac maent yn trosglwyddo'u camddealltwriaethau i ddisgyblion.



- 3 Mae diffygion wrth asesu gwyddoniaeth ym mron pob un o'r ysgolion cynradd ac yn hanner yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae athrawon yn gosod tasgau i ddisgyblion mewn gwyddoniaeth i ddarparu tystiolaeth ar gyfer asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae athrawon yn ymgymryd â gweithdrefnau safoni, gan gynnwys gweithio ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Er hynny, mae amheuaeth ynghylch dibynadwyedd a dilysrwydd asesiadau athrawon mewn gwyddoniaeth oherwydd y diffyg gwirio allanol a diffyg meini prawf asesu clir.
- 4 Er 2005, mae cyfran y disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch mewn asesiadau athrawon wedi bod yn uwch mewn gwyddoniaeth nag yn y pynciau craidd eraill, ond mae dirywiad wedi bod yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch (lefel 5 neu uwch). Er 2005, mae cyfran y disgyblion cyfnod allweddol 3 sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu uwch wedi gwella. Er 2007, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod uwchlaw Saesneg a mathemateg, ond islaw Cymraeg mamiaith. Mae perfformiad bechgyn islaw perfformiad merched yn y ddau gyfnod allweddol.
- 5 Mae diffyg her a strwythur wrth gynllunio'r cwricwlwm mewn gwyddoniaeth mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd. Nid yw'r pwyslais ar fedrau ymchwiliol yng ngorchmynion presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth a gyflwynwyd yn 2008 yn helpu ysgolion i gynllunio dilyniant mewn gwybodaeth a dealltwriaeth wyddonol. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu cynlluniau gwaith newydd yn unol â'r newidiadau a wnaed i'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn 2008. Nid yw'r ychydig o ysgolion uwchradd sydd wedi datblygu cynlluniau gwaith o'r fath yn paratoi disgyblion yn ddigon da ar gyfer meysydd llafur gwyddoniaeth TGAU. Mae llawer o ysgolion wedi cadw ffocws ar gynnwys yn y cwricwlwm, ac mae hyn yn helpu i ddarparu dilyniant mewn dealltwriaeth, er nad yw'r cynnwys yn cael ei bennu yng ngorchmynion pwnc presennol y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth.
- 6 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r amser a neilltuir i addysgu gwyddoniaeth yn amrywio rhwng un a thair awr yr wythnos. Yn yr ysgolion cynradd sy'n darparu awr yn unig o wyddoniaeth bob wythnos, nid oes digon o amser i ymdrin â'r holl agweddau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol gwyddoniaeth yn effeithiol. Mae'r amser a ddyrennir i wyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 3 yn ddigonol ym mhob ysgol.
- 7 Mae cynlluniau addas gan fwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu medrau ymchwilio gwyddonol y disgyblion o fewn cyd-destunau diddorol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn cynllunio nac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u gwybodaeth neu ddealltwriaeth wyddonol yn ddigon da.
- 8 Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ystod o dechnegau rhifedd a ddatblygir drwy ymchwiliadau gwyddonol yn rhy gul ac mae llawer o adrannau yn cyfyngu ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o dechnegau mathemategol trwy gynig llwybr brys i ddatrys problemau. Dim ond ychydig o ysgolion sy'n cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ateb cwestiynau math PISA sy'n datblygu medrau meddwl disgyblion a'u gallu i gymhwyso gwybodaeth bynciol.
- 9 Mae mwyafrif yr adrannau gwyddoniaeth ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn cael eu harwain yn effeithiol gan athrawon sy'n frwdfrydig ynghylch gwyddoniaeth.

Fodd bynnag, dim ond rhyw hanner yr arweinwyr cynradd sydd â gweledigaeth glir ar gyfer datblygu gwyddoniaeth yn eu hysgolion. Dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n cefnogi'u hysgolion cynradd partner i ddatblygu gwyddoniaeth.

- 10 Mae trefniadau addas gan fwyafrif o ysgolion ar gyfer casglu tystiolaeth uniongyrchol ar gyfer hunanarfarnu gwyddoniaeth a chynhyrchu adolygiadau addas o hunanfeirniadol o berfformiad. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn asesu effaith addysgu ar safonau mewn gwyddoniaeth yn ddigon trylwyr.
- 11 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael cyfleoedd addas i rannu addysgu a dysgu gwyddoniaeth da o fewn yr ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn arsylwi athrawon eraill ac mae cyfarfodydd yr adran wyddoniaeth yn canolbwyntio ar effaith dulliau addysgu ar safonau. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn yr arolwg hwn, sydd wedi gwneud cysylltiadau ag ysgolion eraill i rannu syniadau ar gyfer addysgu gwyddoniaeth, ac nid yw unrhyw ysgolion cynradd wedi gwneud hyn. Dim ond ychydig iawn o athrawon sydd yn mynychu cyrsiau i ehangu neu ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i addysgu gwyddoniaeth. Nid oes digon o gefnogaeth ar gyfer addysgu gwyddoniaeth gan awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd:

- A1 ddarparu cyfleoedd gwyddoniaeth heriol i ymestyn pob disgybl, yn enwedig disgyblion mwy galluog, a chael gwared ar dasgau sy'n rhy hawdd;
- A2 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fynd ar drywydd eu diddordebau gwyddonol eu hunain;
- A3 sicrhau bod arferion asesu a marcio yn rhoi cyngor ystyrlon i ddisgyblion ar sut i wella eu dealltwriaeth a'u medrau gwyddonol; a
- A4 gweithio gydag ysgolion eraill i rannu dulliau effeithiol o addysgu ac asesu gwyddoniaeth.

### Yn ogystal, dylai ysgolion cynradd:

- A5 wneud yn siŵr y caiff gwyddoniaeth ei haddysgu i ddisgyblion am o leiaf ddwy awr yr wythnos; a
- A6 darparu hyfforddiant i athrawon â gwybodaeth bynciol wan am wyddoniaeth.

### Yn ogystal, dylai ysgolion uwchradd:

- A7 gynllunio i ddefnyddio ystod ehangach o fedrau rhifedd mewn gwersi gwyddoniaeth.

### Dylai awdurdodau lleol:

- A8 ddarparu mwy o ddatblygiad proffesiynol, cymorth a chyngor i ysgolion ar addysgu a dysgu gwyddoniaeth; a

A9 chynorthwyo ysgolion i rannu arfer orau mewn addysg gwyddoniaeth.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A10 wella dibynadwyedd a dilysrwydd asesiadau athrawon drwy adolygu meini prawf asesu a chyflwyno elfen o safoni allanol; a

A11 adolygu gorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer gwyddoniaeth i gynnwys cynnwys hanfodol.

**Teitl: Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd – Mehefin 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Mae cyrsiau TGAU mewn astudiaethau crefyddol wedi dod yn fwy poblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy o ddisgyblion yn ennill cymhwyster mewn addysg grefyddol nag mewn unrhyw bwnc di-graidd arall yng Nghymru. Mae nifer y disgyblion sy'n astudio'r cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros chwarter o'r disgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi'u cofrestru yn 2012. Mae nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n raddol hefyd dros y pum mlynedd diwethaf, gydag ychydig dros hanner y disgyblion ym Mlwyddyn 11 wedi'u cofrestru yn 2012. Ar gyfer y ddau gwrs, cofrestrodd mwy o ferched na bechgyn, er bod y gwahaniaeth yn fwy gyda'r cwrs llawn.
- 2 Mae cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol wedi codi'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A\* i C mewn astudiaethau crefyddol ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer pynciau eraill. Er bod cyrhaeddiad yng Nghymru yn weddol debyg i gyrhaeddiad ar gyfer y DU gyfan, mae cyfran uwch o ddisgyblion yn ennill gradd A\* yng Nghymru.
- 3 Mae cyrhaeddiad yn y cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf, er iddo godi ychydig yn 2012. Er y gostyngiad hwn, mae canran y disgyblion sy'n ennill graddau A\* i C yng Nghymru wedi aros yn gyson well na chanran y DU gyfan, ac mae cyfran uwch o ddisgyblion yn ennill gradd A\* yng Nghymru.
- 4 Mae canran gryn dipyn yn uwch o ferched yn ennill graddau A\* i C na bechgyn ar y cwrs llawn a'r cyrsiau TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol. Mae'r bwlch yn rhwng y ganran hon ar gyfer merched a bechgyn ehangach yng Nghymru ar gyfer y ddau gwrs nad ydyw ar draws y DU gyfan.
- 5 Nid yw asesiadau athrawon o berfformiad disgyblion mewn addysg grefyddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn cael eu cynnwys yn setiau data craidd Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â phynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol, ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi'n genedlaethol mewn unrhyw ffordd arall a fyddai'n galluogi dadansoddi safonau yng nghyfnod allweddol 3 neu gynnydd rhwng cyfnodau allweddol.

- 6 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion yn dangos bod safonau yn dda mewn mwyafrif o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3. Nid yw safonau yn rhagorol yn unrhyw un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ond maent yn anfoddfaol mewn ychydig o ysgolion lle nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Disgyblion mwy galluog a dawnus yw'r grŵp sydd yn fwyaf tebygol o dangyflawni, a'r rheswm am hyn fel arfer yw bod y tasgau a osodir gan athrawon yn methu â'u herio i ddangos y lefel o fedr a dealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer lefel 7 neu uwch.
- 7 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn mewn astudiaethau crefyddol yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da, ac mae cyfran ychydig yn is o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs byr yn gwneud cynnydd da hefyd. Lle nad yw disgyblion yn dilyn cwrs arholiad yng nghyfnod allweddol 4, anaml y mae safonau mewn gwersi yn well na digonol. Yn y gwersi hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn camymddwyn. Mae hyn yn awgrymu nad ydynt yn gwerthfawrogi'r gwersi, a gallai hyn fod am nad ydynt yn arwain at gymhwyster.
- 8 Roedd bron pob un o'r disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn dangos parch at farnau a chredoau pobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol, ac yn deall sut mae'n cyfrannu at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Yn benodol, mae disgyblion yn mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol, fel 'a oes bywyd ar ôl marwolaeth?', 'beth yw drwg?' a 'beth yw gwirionedd?'. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau fel y rhain, a pham mae pobl yn byw eu bywydau mewn ffyrdd gwahanol yn sgil eu credoau. Maent yn mwynhau ystyried eu barnau eu hunain, a'u trafod gyda'u cyfoedion. Maent yn barod i siarad am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â chrefydd a moeseg, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi.
- 9 Roedd yn dda neu'n well mewn ychydig dros ddwy ran o dair o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolwg hwn. Roedd yr addysgu yn rhagorol mewn bron i un o bob pump o'r gwersi, ac yn anfoddfaol mewn ychydig iawn o wersi. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr addysgu mewn addysg grefyddol yn well na'r cyfartaledd ar gyfer addysgu ar draws yr holl bynciau mewn ysgolion uwchradd a arolygwyd er 2010. 2010.
- 10 Mewn llawer o ysgolion, yn y ddau gyfnod allweddol, mae athrawon addysg grefyddol:
- yn meddu ar wybodaeth bynciau dda;
  - yn addysgu'n frwdfrydig;
  - yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu i gefnogi'r dysgu, yn enwedig trwy drafod mewn parau a grwpiau;
  - yn defnyddio arteffactau ac adnoddau clyweled yn greadigol;
  - yn paratoi disgyblion yn drwyadl ar gyfer arholiadau TGAU;
  - yn hyrwyddo medrau meddwl disgyblion yn effeithiol; ac
  - yn hyrwyddo llythrennedd yn briodol, yn enwedig medrau llefaredd ac ysgrifennu.
- 11 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn defnyddio athrawon anarbenigol i addysgu addysg grefyddol a'r cwrs TGAU byr mewn astudiaethau crefyddol, er yn anaml y

cânt eu defnyddio i addysgu'r cwrs TGAU llawn. Nid yw athrawon anarbenigol yn cael effaith negyddol ar safonau yn y mwyafrif o ysgolion.

- 12 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n eu galluogi i ddeall eu cynnydd a sut i wella eu gwaith
- 13 Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth dda iawn gan athrawon o ofynion TGAU, ond ychydig sydd â dealltwriaeth gywir o lefelau perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a amlinellir yn y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol.
- 14 Mae'r meysydd llafur a gytunir yn lleol ar hyd a lled Cymru yn debyg iawn, gan eu bod yn seiliedig ar y fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru. Mae bron pob un o'r ysgolion yn bodloni gofynion eu maes llafur cytûn lleol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ysgolion yn bodloni'r gofynion yng nghyfnod allweddol 4 naill ai am nad ydynt yn rhoi digon o amser i ymdrin â'r maes llafur, neu oherwydd weithiau bod gwersi'n cael eu defnyddio'n bennaf i helpu disgyblion ennill cymhwyster heb fod yn gymhwyster pwnc, fel cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru.
- 15 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr pwnc effeithiol yn gosod disgwyliadau uchel o fewn yr adran, yn monitro athrawon addysg grefyddol eraill yn fanwl, yn cynnig cymorth a her briodol, ac yn dirprwyo agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth ymhlith cydweithwyr er mwyn annog dull colegol. Dim ond mewn lleiafrif o adrannau addysg grefyddol y mae hunanarfarnu yn dda neu'n well. Mae prinder data cenedlaethol ar addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn ei gwneud hi'n anodd i ysgolion cymharu safonau gydag ysgolion eraill, ond dim ond lleiafrif o adrannau sy'n dadansoddi data arholiadau mewnol yn drylwyr er mwyn cynllunio ar gyfer gwella.
- 16 Mae'r diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a rhwydweithiau dysgu yn golygu nad yw arfer dda yn cael ei rhannu digon, ac nid eir i'r afael yn effeithiol â heriau, fel codi cyrhaeddiad bechgyn, cywirdeb asesu lefelau perfformiad yng nghyfnod allweddol 3, cynllunio ar gyfer datblygu medrau a gwella hunanarfarnu.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion:

- A1 ddatblygu strategaethau i godi cyrhaeddiad bechgyn yng nghyfnod allweddol 4;
- A2 gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer disgyblion nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer cymhwyster, ac ystyried rhoi'r cyfle i bob disgybl ennill cymhwyster priodol;
- A3 gwella cywirdeb asesiadau athrawon o lefelau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3;
- A4 sicrhau bod tasgau yn ddigon heriol i alluogi disgyblion mwy galluog i gyrraedd lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3;

A5 sicrhau bod y cwricwlwm, y trefniadau staffio ac amserlennu yn galluogi pob disgybl i wneud cynnydd da trwy gyfnodau allweddol 3 a 4; a

A6 chryfhau hunanarfarnu a'r defnydd o ddata mewn adrannau addysg grefyddol er mwy nodi ble i wella a beth i'w wella.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A7 gasglu, dadansoddi a chyhoeddi data cyrhaeddiad ar gyfer addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn yr un ffordd ag ar gyfer pynciau di-graidd; a

A8 gweithio gydag awdurdodau lleol a CYSAGau i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chefnogi rhwydweithiau dysgu ar gyfer athrawon addysg grefyddol.

**Teitl: HMS Statudol mewn ysgolion – Mehefin 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae'r pum niwrnod HMS statudol yn rhan anhepgor o strategaeth fwy ar gyfer datblygu staff, sy'n cynnwys trywyddau eraill fel grwpiau gorchwyl â ffocws, cymunedau dysgu proffesiynol a chynhyrchu arweiniad i'w ledaenu'n ehangach ymhlith athrawon ac ysgolion clwstwr.
- 2 Mae'r pum niwrnod HMS statudol eu hunain yn gyfnod amser gwerthfawr y bydd ysgolion yn eu neilltuo i ddatblygiad proffesiynol staff. Mae ysgolion yn defnyddio diwrnodau HMS statudol i gynnig hyfforddiant sy'n cyfrannu at wella ysgolion yn bennaf, ond nid yw rheolwyr yn mynd ati'n systematig i fonitro ei effaith ar yr addysgu a'r dysgu.
- 3 Mewn llawer o'r ysgolion a archwiliwyd yn yr arolwg, canfuom gysylltiadau cadarn rhwng ffocws y gweithgareddau HMS a'r blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiadau hunanarfarnu'r ysgolion, cynlluniau gwella, ac o drefniadau rheoli perfformiad.
- 4 Mae rhaglenni HMS yn cwmpasu amrywiaeth fawr o destunau, fel asesu a safoni, datblygu'r cwricwlwm a diogelu. Dros y pum mlynedd diwethaf, llythrennedd sydd wedi cael y sylw mwyaf yn ystod HMS, ac mae llawer o ysgolion wedi canolbwyntio ar addysgu a dysgu darllen ac ysgrifennu.
- 5 Yn 2012-2013, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tloedi ar gyrhaeddiad yn ystod eu diwrnodau HMS. Mae pob ysgol bron yn bwriadu defnyddio un diwrnod HMS o leiaf i ganolbwyntio ar lythrennedd. Mae mwyafrif o ysgolion wedi nodi llythrennedd yn eu cynlluniau HMS. Dim ond lleiafrif o ysgolion sydd â chynlluniau i ganolbwyntio ar leihau effaith tloedi ar gyrhaeddiad yn 2012-2013.
- 6 Nid yw lleiafrif bach o ysgolion yn defnyddio HMS yn ddigon effeithiol nac yn cael y budd pennaf o'r hyfforddiant. Yn yr ysgolion hyn, nid yw HMS yn cyfrannu'n llawn at

wella ysgolion am nad oes cyswllt ddigon clir rhyngddo â blaenoriaethau staff, ysgolion na blaenoriaethau cenedlaethol. Yn aml, nid yw arfer HMS lwyddiannus yn cael ei lledaenu digon yn yr ysgol a thu hwnt. Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid yw amser HMS yn cael ei dreulio ar hyfforddiant, ond yn hytrach ar weithgareddau amhriodol fel trefnu ystafelloedd dosbarth ac arddangosfeydd. Yn yr ysgolion lle mae hyn yn digwydd, ychydig y mae diwrnodau HMS yn ei gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol staff neu at wella ysgolion.

- 7 Yn gyffredinol, mae ysgolion yn ystyried yn ofalus pa ddiwrnodau maent yn eu dewis ar gyfer HMS, fel eu bod yn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer hyfforddiant staff, tra hefyd yn tarfu cyn lleied ag y bo modd ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal diwrnod HMS ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i ysgolion gynllunio cyfres o sesiynau ar ôl ysgol neu sesiynau gyda'r hwyr i'r staff yn lle un neu ddau ddiwrnod HMS. Mae'r diwrnodau hyn wedyn yn cael eu nodi fel diwrnodau cau ar gyfer staff a disgyblion, ar ddiwedd tymor yr haf yn aml.
- 8 Mewn llawer o ysgolion, mae trefnu a chyflwyno HMS yn effeithiol yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad proffesiynol staff. Mae llai o ysgolion yn defnyddio darparwyr hyfforddiant allanol neu arbenigwyr addysgol i ddarparu HMS nag o'r blaen, ac mae mwy a mwy o ysgolion yn defnyddio darpariaeth fewnol. Mae'r dull hwn yn gwneud defnydd da o arbenigedd y staff addysgu a'r staff cymorth, ac yn helpu cynnal ac adeiladu gallu i wella. Hefyd, mae llawer o ysgolion yn cydweithredu ag ysgolion eraill i rannu arfer dda a chostau hyfforddiant.
- 9 Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar HMS ei hun yn dda mewn llawer o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau dull cydlynus trwy gysylltu'r HMS â blaenoriaethau o reoli perfformiad, hunanarfarnu a'r cynllun gwella ysgol. O ganlyniad, mae'r hyfforddiant yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol staff ac at wella ysgolion.
- 10 Mae amodau tâl a gwasanaeth staff cymorth dysgu yn amrywio rhwng ysgolion yn aml. O ganlyniad, nid yw pob un o'r staff hyn yn mynychu sesiynau HMS gyda'r athrawon. Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae staff cymorth dysgu'n cael eu cynnwys. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r staff cymorth yn gysylltiedig â chynllunio ac arwain HMS, ac mae hyn yn datblygu eu medrau proffesiynol ymhellach ac yn gwneud defnydd da ohonynt.
- 11 Mewn llawer o ysgolion, nid yw effaith HMS yn cael ei harfarnu digon. Yn aml, er bod rhywfaint o arfarnu'n cael ei wneud ar ddiwedd y diwrnod hyfforddiant, nid yw ei effaith ar addysgu a dysgu dros amser yn cael ei monitro ymhellach. Ychydig o arfarniadau sy'n dadansoddi effaith yr hyfforddiant ar gynnydd a chyflawniad disgyblion.
- 12 Mae llawer o awdurdodau lleol yn cyfrannu'n dda at HMS ysgolion. Yn gyffredinol, maent yn darparu hyfforddiant o ansawdd da ac yn helpu ysgolion i rwydweithio a chydweithio ag ysgolion eraill. Ynghyd ag ysgolion, nid yw mwyafrif o awdurdodau lleol yn gwybod digon am effaith HMS. Nid ydynt yn casglu digon o wybodaeth am ba un a yw HMS yn arwain at welliannau o ran gwybodaeth a medrau staff, deilliannau disgyblion, newidiadau trefniadol neu a yw'n cynnig gwerth am arian.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion:

- A1 ganolbwyntio mwy ar flaenoriaethau cenedlaethol mewn gweithgareddau HMS, fel mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad;
- A2 gwneud yn siŵr bod cysylltiad agos rhwng yr HMS a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwella ysgolion;
- A3 chwilio am ffyrdd o gynnwys staff cymorth dysgu mewn HMS fel eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn at wella ysgolion; a
- A4 gwella arfarnu HMS trwy fonitro ei effaith ar berfformiad staff a deilliannau disgyblion.

### Dylai awdurdodau lleol:

- A5 gynorthwyo ysgolion wrth fonitro ac arfarnu effaith HMS; a
- A6 chasglu gwybodaeth am HMS effeithiol a'i ledaenu i bob ysgol.

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A7 ddarparu arweiniad i helpu ysgolion i fonitro ac arfarnu effaith HMS ar berfformiad disgyblion.

## Teitl: Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion – Gorffennaf 2013

## Prif ganfyddiadau

- 1 Mae arweiniad Strategaeth Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr ôl-16 a phrosiect cynrychioli dysgwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi helpu sefydliadau addysg bellach (SABau) a chanolfannau Cymraeg i oedolion i wella'r modd y mae dysgwyr yn ffurfio eu profiad dysgu.
- 2 Mae darparwyr yn y ddau sector wedi symud yn sylweddol y tu hwnt i ddefnyddio arolygon dysgwyr fel y prif ffyrdd o gasglu a dadansoddi safbwyntiau a barn dysgwyr. Maent yn cynnwys dysgwyr yn dda mewn gweithgareddau sy'n eu helpu i ffurfio'r cwricwlwm, dylanwadu ar welliannau yn ansawdd yr addysgu, cynnig cyngor i ddarparwyr ynglŷn ag ansawdd cyfleusterau a chyfrannu at hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd. O ganlyniad, mae gan ddysgwyr rôl bwysig mewn gwella darpariaeth.



- 3 Mae darparwyr yn y ddau sector yn cael anhawster yn mesur effaith cynnwys dysgwyr ar gyrhaeddiad neu fedrau dysgwyr. Dim ond dechrau rhoi systemau ffurfiol ar waith ar gyfer cofnodi a chydabod y deilliannau hyn ar gyfer dysgwyr y mae darparwyr. Yn y ddau sector, mae'n glir bod cynnwys dysgwyr mewn ffurfio eu profiad dysgu yn eu helpu i wella eu medrau personol a chymdeithasol a'u lles.
- 4 Yn y sector Cymraeg i oedolion, mae darparwyr a dysgwyr yn credu bod dysgwyr yn gwella eu medrau Cymraeg trwy ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun gwahanol yn ystod eu gweithgareddau cynnwys dysgwyr.
- 5 Mae darparwyr yn y ddau sector yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio cynrychiolwyr dosbarth, siarad â dysgwyr fel rhan o arsylwadau addysgu a dysgu, paneli yn cynnwys staff a dysgwyr, grwpiau ffocws a thrafodaethau ffurfiol gydag unigolion a gweithgareddau cyfoethogi sy'n ymestyn medrau dysgwyr. Yn bwysig i hyn yw'r ffaith bod darparwyr yn addasu gweithgareddau yn dda i fodloni anghenion eu sefydliad a'u dysgwyr eu hunain er mwyn gwneud y gorau o fanteision cynnwys dysgwyr.
- 6 Mae gan ddysgwyr farn gadarnhaol am y modd y mae sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion yn eu cynnwys mewn ffurfio eu profiad dysgu. Maent yn credu bod darparwyr yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u barn ac yn eu cymryd o ddifrif.
- 7 Mae'r holl ddarparwyr yn y ddau sector wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i adrodd yn ôl wrth ddysgwyr am yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cynnwys. Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r modd y mae darparwyr wedi ymateb i'w safbwyntiau.
- 8 Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw canolfannau Cymraeg i oedolion yn rhoi adborth am yr hyn y mae dysgwyr mewn dosbarthiadau unigol wedi ei ddweud mewn arolygon. O ganlyniad, nid yw tiwtoriaid yn ymwybodol o'r hyn y gallent ei wneud i wella ansawdd y profiad dysgu ar gyfer eu dysgwyr. Yn yr un modd, nid yw dysgwyr yn gwybod sut mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar welliannau i'w dosbarth neu eu cwrs.
- 9 Mae llawer o diwtoriaid Cymraeg i oedolion yn agored i drafodaeth gyda dysgwyr ynghylch sut gallant wella'r hyn y maent yn ei gynnig i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor yn deall pwysigrwydd trafod safbwyntiau a barn dysgwyr yn barhaus er mwyn gwneud newidiadau wrth i gyrsiau fynd rhagddynt.
- 10 Mae dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn credu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn meithrin medrau sy'n eu helpu yn eu hastudiaethau, er enghraifft mae'r cyfrifoldebau ychwanegol y maent yn ymgymryd â nhw yn eu cymell i weithio'n galetach; neu maent yn gwella eu medrau rheoli amser er mwyn cwblhau eu holl weithgareddau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn rhybuddio bod gweithredu fel cynrychiolydd dosbarth yn aml yn golygu nad ydynt yn cael cymaint o amser ar gyfer eu hastudiaethau a gall hyn gael effaith negyddol ar ddeilliannau eu cwrs.
- 11 Mae dysgwyr Cymraeg i oedolion yn credu bod cymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu baneli dysgwyr, neu weithredu fel cynrychiolydd dosbarth, yn eu helpu i

ddefnyddio pob un o'r pedwar medr iaith mewn cyd-destun gwahanol, ac felly'n cyfrannu at wella eu cyflawniad. Fodd bynnag, mae dysgwyr sy'n ymgymryd â rôl cynrychiolwyr dosbarth yn credu y byddent yn elwa ar gael briff mwy cynhwysfawr am rôl y cynrychiolydd dosbarth. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn paneli dysgwyr yn codi pryderon am eu gallu i fynychu paneli o ran amser, trefniadau gofal a chostau teithio.

12 Mae Prosiect Cynrychioli Myfyrwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn helpu dysgwyr i gyfrannu eu safbwyntiau a'u barn ar ffurf cyrsiau a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae cynrychiolwyr dosbarth yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i drafod materion a syniadau a chael adborth ar gyfer tiwtoriaid. Maent yn gweithio'n dda gyda thiwtoriaid a rheolwyr cyrsiau i geisio datrys materion, fel amseru aseiniadau. Bu'r prosiect yn llwyddiannus wrth wella'r modd y mae tiwtoriaid yn ymgynghori â phobl ifanc ac yn annog tiwtoriaid i adolygu beth maent yn ei addysgu a sut.

13 At ei gilydd, mae strategaethau effeithiol i gynnwys dysgwyr:

- yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys gwahanol sy'n symud y tu hwnt i holiaduron dysgwyr ac arolygon i helpu dysgwyr i ffurfio eu profiad dysgu;
- yn gwella medrau personol a chymdeithasol dysgwyr ac yn cyfrannu at wella eu medrau pwnc;
- yn annog staff i wrando ar ddysgwyr ac ystyried eu safbwyntiau yn ddifrifol iawn; ac
- yn rhoi adborth i ddysgwyr sy'n eu helpu i ddeall pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i gael eu cynnwys.

## Argymhellion

### Dylai sefydliadau addysg bellach:

A1 roi systemau ffurfiol ar waith i gofnodi a chydabod ystod y deilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr; a

A2 gwneud yn siŵr bod eu trefniadau ar gyfer cynnwys dysgwyr yn helpu dysgwyr i ffurfio penderfyniadau sy'n effeithio ar y canlynol:

- deilliannau dysgwyr;
- addysgu ac asesu;
- y cwricwlwm;
- adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau;
- cymorth i ddysgwyr;
- gwella ansawdd; ac
- arwain a rheoli'r ddarpariaeth yn gyffredinol.

### Dylai Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr:

A3 gofnodi a chydabod effaith cynrychiolwyr dosbarth neu lywodraethwyr myfyrwyr ar addysgu a dysgu a rheoli a datblygu sefydliadau addysg bellach.

### **Dylai canolfannau Cymraeg i oedolion:**

A4 roi systemau ffurfiol ar waith i gofnodi a chydnabod ystod y deilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr;

A5 gwella'r defnydd o arolygon neu holiaduron llais y dysgwyr i:

- wella'r cwrs ar gyfer dysgwyr presennol;
- rhoi adborth ar lefel dosbarth; a
- helpu dysgwyr i ddeall y modd y mae eu safbwyntiau a'u barn wedi cyfrannu at newidiadau a wneir i'w cwrs, ansawdd yr addysgu a'r asesu ac ansawdd y ddarpariaeth;

A6 gwella dealltwriaeth cynrychiolwyr dosbarth o'u rôl a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt;

A7 gwella trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr i weithredu fel cynrychiolwyr dosbarth neu gymryd rhan mewn paneli dysgwyr; a

A8 gwella dealltwriaeth tiwtoriaid o'u rôl mewn helpu dysgwyr i gyfrannu at wella eu cwrs a'u profiadau dysgu.

### **Teitl: Effaith TGCh ar ddysgu disgyblion mewn ysgolion cynradd – Gorffennaf 2013**

#### **Prif ganfyddiadau**

##### **Safonau**

- 1 Mae safonau mewn TGCh yn dda neu'n rhagorol mewn tua hanner o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn. Mae safonau mewn TGCh yn well yn y Cyfnod Sylfaen, mewn perthynas ag oedran, nag yng nghyfnod allweddol 2. Pan nad yw safonau'n dda, ar y cyfan, nid yw disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau TGCh y dylent eu datblygu yng nghyfnod allweddol 2. Nid yw dros hanner o'r ysgolion yn defnyddio TGCh yn ddigon da i ymestyn disgyblion mwy abl a dawnus.
- 2 Mae medrau disgyblion wrth ddefnyddio TGCh ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio TGCh yn dda i ymchwilio i wybodaeth mewn gwahanol bynciau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau trin data neu fodelu yn ddigon da. Mae hyn yn rhwystro datblygiad eu medrau meddwl a datrys problemau, a chymhwyso medrau rhif lefel uwch.
- 3 Mae'r meysydd sy'n wannach mewn TGCh fel pwnc hefyd yn wan o ran defnyddio medrau TGCh mewn pynciau eraill. Nid yw disgyblion yn cymhwyso medrau TGCh

a ddysgwyd mewn sesiynau pwnc TGCh yn ddigon da mewn pynciau eraill, ac nid yw pob ysgol yn addysgu'r medrau hyn i ddisgyblion yn y lle cyntaf.

- 4 Mae effaith TGCh ar safonau mewn llythrennedd yn dda neu'n well yn y mwyafrif o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, caiff bechgyn sy'n ddarllenwyr ac ysgrifenyddion eu cymhell gan TGCh i wella eu medrau llythrennedd. Mewn rhai ysgolion, mae medrau llafaredd, cyflwyno, ymchwilio ac ysgrifennu disgyblion, yn ogystal â'u medrau cydweithredol a'u medrau meddwl, yn gwella'n sylweddol trwy weithio ar ffilmio, golygu ac animeiddio fideo.
- 5 Mae mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio TGCh i gefnogi ymyriadau rhifedd, ac mae lleiafrif ohonynt yn gwneud hynny'n dda ac yn gallu dangos cysylltiad rhwng defnyddio TGCh a gwelliant mewn safonau.

### **Addysgu a dysgu**

- 6 Bron ym mhob un o'r ysgolion cynradd, caiff TGCh effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu, yn bennaf trwy gymhell disgyblion ac ennyn eu diddordeb. Gyda rhai eithriadau, mae ymarferwyr (athrawon a staff cymorth) yn gwneud defnydd da o TGCh i ennyn diddordeb a brwdfrydedd ymhlith disgyblion.
- 7 Mae ansawdd yr addysgu mewn TGCh yn well yn y Cyfnod Sylfaen nag yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn ddigon cymwys mewn TGCh i gefnogi disgyblion yn briodol. Mae ymarferwyr yn llai cymwys ar y cyfan wrth gyflwyno amrediad llawn y rhaglen astudio TGCh yng nghyfnod allweddol 2.
- 8 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gynllun gwaith cyfoes ar gyfer TGCh sy'n nodi dilyniant a pharhad ym mhob agwedd ar y pwnc. Fodd bynnag, mae'r arfer o ran rhoi'r cynlluniau gwaith hyn ar waith yn ddigonol neu'n waeth mewn dros hanner o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt. Nid yw ysgolion yn defnyddio'r Fframwaith Sgiliau yn dda ar gyfer cynllunio dilyniant ym medrau TGCh disgyblion chwaith.
- 9 Mae asesu ac olrhain medrau disgyblion mewn TGCh yn ddigonol neu'n anfodddhaol yn unig ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn defnyddio TGCh. Dim ond mewn ychydig dros hanner yr ysgolion y mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn erbyn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ac nid yw rhai ohonynt wedi datblygu unrhyw weithdrefnau asesu o gwbl mewn TGCh eto.
- 10 Nid yw ysgolion cynradd ac uwchradd bob amser yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o safonau mewn TGCh. Er enghraifft, wrth ymateb i arolwg holiadur Estyn, dywedodd 60% o ysgolion cynradd yn ein harolwg fod medrau disgyblion mewn defnyddio taenlenni yn dda neu'n well o gymharu â dim un o'r ysgolion uwchradd.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- 11 Mae tua hanner yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw yn llwyddiannus wrth godi safonau mewn defnyddio TGCh, a thrwy hynny. Mae gan yr arweinwyr yn yr ysgolion hyn weledigaeth glir a phenderfyniad i wella gallu staff, cynllunio a

darpariaeth ar gyfer TGCh. Maent yn sicrhau bod gan bob un o'r staff y cymhwysedd a'r hyder i ddefnyddio TGCh yn dda. Mewn tua hanner o'r ysgolion, fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod datblygiad proffesiynol mewn TGCh yn galluogi ymarferwyr i fodloni anghenion dysgu TGCh disgyblion.

- 12 Nid yw traean o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi rhoi cynllun TGCh ar waith sy'n blaenoriaethu datblygiadau allweddol, fel cyflwyno technolegau cludadwy (cyfrifiaduron llechen a ffonau symudol). Yn aml, nid yw ysgolion yn ystyried bod cynllunio ar gyfer technolegau newydd yn flaenoriaeth am nad ydynt yn amlwg yng ngorchmynion neu arweiniad y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 13 Nid yw llawer o arweinwyr yn arfarnu effeithiolrwydd eu cynlluniau TGCh yn ddigon trylwyr i farnu'r effaith ar fedrau TGCh neu fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Yn benodol, nid oes digon o arweinwyr mewn ysgolion yn gwneud asesiad gwaelodlin o fedrau TGCh disgyblion cyn rhoi prosiect neu fenter ar waith i fesur ei effaith.
- 14 Nid oes digon o gymwysiadau addysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer technolegau cludadwy. Ychydig iawn o arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n dewis newid iaith y rhyngwyneb mewn meddalwedd gyfrifiadurol allweddol i'r Gymraeg. Gall y materion hyn roi'r argraff i ddisgyblion nad yw'r Gymraeg yn berthnasol mewn TGCh.
- 15 Mae awdurdodau lleol yn darparu cyswllt â'r rhyngrwyd ar gyfer bron pob ysgol. Dywed tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fod ansawdd gwael y cyswllt yn rhwystro eu gwaith TGCh. Mae hyn yn bennaf yn sgil cysylltiadau araf, sy'n gwneud chwiliadau rhyngrwyd yn anodd i ddosbarth cyfan. Mae lefel ffitro a rhwystro safleoedd rhyngrwyd gan awdurdodau lleol hefyd yn rhwystro gwaith dosbarth yn ddiangen yn y mwyafrif o ysgolion.
- 16 Cyngor cyfyngedig yn unig y mae awdurdodau lleol yn ei roi i ysgolion ar TGCh. Mae timau ymgynghori TGCh awdurdodau lleol yn fach iawn ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ansicr ynglŷn â threfniadau cymorth TGCh o dan wasanaethau gwella ysgolion y consortia rhanbarthol newydd.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion:

- A1 ddatblygu'r ystod lawn o fedrau TGCh disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn trin data, modelu a rhifedd;
- A2 asesu ac olrhain gwybodaeth bynciol a medrau disgyblion mewn TGCh yn drylwyr;
- A3 cynllunio ar gyfer cyflwyno technolegau cludadwy;
- A4 gweithredu ac arfarnu cynllun datblygu i wella safonau mewn TGCh; ac
- A5 hyfforddi athrawon fel eu bod yn gymwys i gyflwyno ystod lawn y rhaglen astudio TG yng nghyfnod allweddol 2.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

- A6 gefnogi ysgolion i wella safonau ac yn holl elfennau TGCh yng nghyfnod allweddol 2;
- A7 helpu ysgolion uwchradd i gynllunio i fodloni anghenion disgyblion a oedd yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn rheolaidd mewn ysgolion cynradd ac yn canfod ar ôl mynd i ysgolion uwchradd nad oedd cyfrifiaduron llechen yn cael eu defnyddio mor aml;
- A8 cynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i gael dealltwriaeth gyffredin o safonau mewn TGCh;
- A9 lledaenu arfer dda mewn TGCh mewn ysgolion;
- A10 cefnogi trefniadau diogelu ysgolion gan wneud y mwyaf o'u defnydd o ystod o dechnolegau a gwasanaethau digidol ar-lein; ac
- A11 esbonio i ysgolion lefelau'r cymorth TGCh y gallant ei ddisgwyl gan y consortia rhanbarthol newydd.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- A12 adolygu gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Sgiliau anstatudol ar gyfer TGCh i wneud yn siŵr eu bod yn aros yn berthnasol yng ngoleuni technolegau newydd;
- A13 cefnogi datblygiad cymwysiadau addysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer dyfeisiau cludadwy; a
- A14 darparu cysylltedd band eang digonol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru.

**Teitl: Effaith absenoldeb athrawon – Medi 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Dim ond o dan amgylchiadau na ellir eu rhagweld y dylai athrawon gyflenwi yn ystod absenoldeb cydweithwyr. Un canlyniad y cytundeb 'cyflenwi'n anaml' hwn fu mwy o gyfranogiad gan staff cymorth a staff llanw wrth gyflwyno addysg disgyblion. Amcangyfrifir bod ychydig o dan 10% o'r holl wersi bellach yn cael eu cyflenwi gan staff nad y nhw yw'r athro dosbarth arferol.
- 2 Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, bydd dysgwyr yn gwneud llai o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth pan fydd yr athro dosbarth arferol yn absennol, ac mae ymddygiad dysgwyr yn waeth yn aml, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Bydd absenoldeb athrawon yn effeithio ar ddisgyblion ar draws yr ystod gallu. Mae disgyblion llai galluog yn llai tebygol o gael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac mae disgyblion o allu canolig a disgyblion mwy galluog yn gwneud llai o gynnydd na'r hyn y dylent am nad yw'r gwaith a osodir iddynt yn ddigon heriol.

- 3 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r addysgu gan staff cyflenwi nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr ysgol yn aneffeithiol yn aml, a hynny'n bennaf am nad ydynt yn gwybod digon am anghenion y disgyblion y maent yn eu haddysgu. Mae'n anodd i'r staff hyn gydweddu gwaith a lefel y cymorth ag anghenion a galluoedd unigol disgyblion. Hyd yn oed pan fydd goruchwylwyr llanw yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, mae cyflymder gwersi'n rhy araf yn aml ac mae'r disgwyliadau yn rhy isel. Gall llawer o'r gwaith fod yn weithgarwch llenwi amser nad yw'n cael ei farcio na'i gynnwys mewn gweithlyfrau arferol.
- 4 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, caiff effeithiau niweidiol absenoldeb tymor byr athrawon ar ddysgu'r disgyblion ei lleihau yn bennaf trwy ddarparu trefniadau cyflenwi gan staff a gyflogir yn yr ysgol ac sy'n gyfarwydd â'r dysgwyr a phrosesau'r ysgol. Fel arfer dim ond un aelod o staff 'llanw' mewn diwrnod y bydd disgyblion mewn ysgolion cynradd yn gweld, am fod yr aelod staff yn cyflenwi dros athro dosbarth a fyddai fel arfer yn treulio'i amser/hamser gyda'r dosbarth, ac mae hyn hefyd yn lleihau tarfu ar eu dysgu. Mae disgyblion cynradd yn gadarnhaol yn gyffredinol ynghylch y cynnydd a wnânt mewn gwersi sy'n cael eu 'cyflenwi'.
- 5 Mae effaith negyddol fwyaf absenoldeb athrawon ar ddysgu disgyblion yn digwydd mewn ysgolion uwchradd. Nid yw staff cyflenwi nad ydynt yn gweithio yn yr ysgol fel arfer yn gwybod beth yw anghenion y dysgwyr gystal â'u hathrawon dosbarth arferol, ac mae'r gwaith a osodir yn rhy hawdd yn aml ac nid yw'n diddori'r dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyfnod allweddol 3, gan y bydd ysgolion yn aml yn gwneud ymdrech i sicrhau trefniadau gwell ar gyfer dosbarthiadau arholiadau. Yn aml, ni fydd ysgolion uwchradd yn gwneud trefniadau cyflenwi ar gyfer gwersi'r chweched dosbarth yn ystod absenoldebau tymor byr, ond byddant yn dal i fyny â gwaith a gollwyd nes ymlaen. Efallai y byddant hefyd yn ailddefnyddio athrawon pwnc o ddosbarthiadau cyfnod allweddol 3 i gyflenwi dros gyfnod allweddol 4, gan adael staff cyflenwi i lanw nifer anghymesur o wersi cyfnod allweddol 3.
- 6 Oherwydd natur tymor byr eu gwaith, mae'n anodd i staff cyflenwi sefydlu perthynas weithio effeithiol gyda dysgwyr. Nid oes gan ddysgwyr yr un parch yn aml at staff cyflenwi ag sydd ganddynt at eu hathrawon arferol. Teimla'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd na fyddant yn gwneud llawer o gynnydd pan nad ydynt yn adnabod y sawl sy'n cyflenwi gwersi. Mae dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn tueddu camymddwyn neu'n tarfu ar lefel isel pan fyddant yn cael eu haddysgu gan staff cyflenwi. Yn y mwyafrif o ysgolion, bydd staff cyflenwi yn cael gwybodaeth gan yr ysgol am reoli ymddygiad ac yn cael cymorth i ddelio ag ymddygiad heriol pan fydd yn digwydd. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, mae camymddwyn yn yr ystafell ddosbarth neu darfu ar lefel isel yn parhau'n broblem.
- 7 Mewn ysgolion cynradd pan fo dau neu fwy o ddosbarthiadau ym mhob grŵp blwyddyn, mae cynllunio ar y cyd yn helpu lleihau effaith absenoldeb athrawon ymhellach. Bydd staff sy'n cyflenwi yn ystod absenoldeb athrawon yn gweithio'n dda fel arfer ochr yn ochr â'r staff eraill o'r grŵp blwyddyn, a byddant yn elwa ar eu cymorth a'u harweiniad. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn dysgu yn araf, am nad oes gan staff cyflenwi ddigon o amser i ystyried gwybodaeth am ddisgyblion pan fyddant yn cyflenwi yn ystod gwersi, neu nid ydynt yn talu digon o sylw i'r wybodaeth hon.

- 8 Bydd y tarfu mwyaf mewn ysgolion cynradd yn digwydd o ganlyniad i ddiffyg strategaeth i leihau effaith absenoldebau athrawon heb eu cynllunio, ond absenoldebau a allai fod yn rhai hirdymor. Mewn sefyllfaoedd cymhleth, fel y rhai sy'n deillio o staff yn cael eu hatal neu salwch staff mynych ond heb fod yn ddi-dor, nid yw ysgolion yn rheoli nac yn arfarnu effaith cael nifer o staff yn cyflenwi ar gyfer yr un grŵp blwyddyn. Yn rhy aml, mae hyn yn effeithio ar ymddygiad y disgyblion yn ogystal â'u dysgu.
- 9 Mae trefniadau addas gan y rhan fwyaf o ysgolion i gyflenwi dros athrawon absennol trwy ddefnyddio staff cyflenwi mewnol (cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALUau) neu oruchwylwyr llanw a gyflogir gan yr ysgol) neu drwy ddefnyddio athrawon cyflenwi allanol.
- 10 Mae trefniadau gweinyddol priodol gan lawer o ysgolion cynradd ac uwchradd i gynorthwyo staff cyflenwi. Mae mwyafrif yr ysgolion yn darparu llawlyfr neu ddogfen arweiniad i staff cyflenwi sy'n newydd i'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw staff cyflenwi bob amser yn cael y wybodaeth angenrheidiol am iechyd a diogelwch neu ddiogelu, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer y swyddog amddiffyn plant enwebedig yn yr ysgol.
- 11 Mae ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion Cymraeg a'r ysgolion hynny sydd mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd dan anfantais economaidd, yn cael anhawster dod o hyd i athrawon cyflenwi addas. Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i athrawon pynciau â phrinder, fel mathemateg a ffiseg.
- 12 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi digon o flaenoriaeth i reoli effaith absenoldebau athrawon nac i arfarnu effaith hynny ar ansawdd profiadau'r dysgwyr. Dim ond ychydig o ysgolion sy'n mynd ati i ddadansoddi absenoldebau athrawon neu gymharu patrymau absenoldeb gydag ysgolion eraill. Mae llawer o ysgolion yn monitro gwaith staff cyflenwi yn anffurfiol, ond ychydig ohonynt sy'n arsylwi gwersi'n ffurfiol, yn craffu ar y gwaith y mae'r dysgwyr wedi'i gynhyrchu, neu'n gofyn am farnau'r dysgwyr, er mwyn arfarnu effaith y trefniadau cyflenwi.
- 13 Adborth cyfyngedig y mae'r rhan fwyaf o ysgolion ac asiantaethau addysgu yn ei roi i staff cyflenwi ynglŷn â'u perfformiad, ac nid oes fawr o wybodaeth yn cael ei chofnodi. Mae'r adborth yn fanylach pan fydd pryderon ynghylch yr addysgu neu reolaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae bron pob ysgol ar brydiau wedi codi pryderon ynghylch ansawdd ychydig o athrawon cyflenwi. Mae ychydig o asiantaethau yn gofyn am adborth ar leoliadau, er nad yw'r trefniadau ar gyfer casglu'r wybodaeth hon yn gadarn mewn llawer o achosion. Nid yw awdurdodau lleol sy'n darparu rhestrau o athrawon cyflenwi yn gofyn am adborth ar berfformiad fel arfer.
- 14 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae penaethiaid ac uwch arweinwyr eraill bellach yn treulio mwy o amser nag o'r blaen yn cyflenwi mewn dosbarthiadau. Y rheswm am hyn yw eu bod weithiau'n enwebu eu hunain fel athrawon cyflenwi, am eu bod yn cael anhawster dod o hyd i staff cyflenwi. Mae hwn yn ddefnydd aneffeithiol o'u hamser, er bod un fantais, sef bod disgyblion yn tueddu peidio â chamymddwyn o dan yr amgylchiadau hyn. Mae'r trefniant hwn hefyd yn gwrthdaro â darpariaethau 'cyflenwi'n anaml' a ddylai fod yn berthnasol i benaethiaid ac uwch aelodau staff hefyd.



- 15 Yn gyffredinol, mae morâl yn isel ymhlith staff cyflenwi sy'n gweithio drwy asiantaethau recriwtio. Gweithiant dan amgylchiadau heriol, ac mewn llawer o achosion ni chânt eu talu yn unol â phrif raddfa gyflogau athrawon. Dywed lleiafrif o ysgolion mai'r gost yw'r ffactor pwysicaf wrth wneud trefniadau cyflenwi yn ystod absenoldeb athro. Byddant yn cymharu prisiau rhwng asiantaethau recriwtio ac yn trafod pris, lle gall yr athro cyflenwi ennill llai na hanner cyfradd ddyddiol gyfwerth athrawon. Mewn ychydig o ysgolion uwchradd, caiff goruchwylwyr llanw eu recriwtio i gyflenwi dros absenoldeb tymor byr yn hytrach nag athrawon cyflenwi, am fod hyn yn rhatach.
- 16 Mae'r rhan fwyaf o oruchwylwyr llanw a CALUau a gyflogir yn barhaol gan ysgolion yn cael hyfforddiant priodol fel rhan o raglen hyfforddi fewnol eu hysgol. Ond nid yw staff cyflenwi eraill yn cael cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai trefnu eu hyfforddiant eu hunain neu fynychu cyrsiau yn cael eu cynnig gan gwmnïau preifat yn arwain at golli cyflog diwrnod. Effeithir yn wael ar staff cyflenwi sy'n chwilio am swydd barhaol gan y diffyg datblygiad proffesiynol priodol. Gall eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bolisiau a blaenoriaethau cenedlaethol ddirywio dros gyfnod, gan ei gwneud yn anos iddynt sicrhau swydd barhaol.

### Argymhellion

#### Dylai ysgolion:

- A1 reoli absenoldeb athrawon yn fwy effeithlon;
- A2 gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn gwersi a gyflenwir, drwy wneud yn siwr bod y gwaith a osodir ar lefel briodol a bod y staff yn cael digon o wybodaeth am anghenion unigol y dysgwyr;
- A3 cynorthwyo staff cyflenwi a staff llanw i wella'u technegau rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth;
- A4 arfarnu effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr, yn enwedig y disgyblion mwy galluog a'r rhai yng nghyfnod allweddol 3, a monitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu pan fydd athrawon yn absennol;
- A5 sicrhau bod staff cyflenwi yn cael eu cynnwys mewn trefniadau rheoli perfformiad;
- A6 cynnig mwy o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff cyflenwi; a
- A7 gwneud yn siwr bod staff cyflenwi yn cael gwybodaeth hanfodol am iechyd a diogelwch a diogelu, gan gynnwys manylion cyswllt y swyddog amddiffyn plant enwebedig yn yr ysgol.

#### Dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau hyfforddi:

- A8 ddarparu data cymharol ar gyfraddau absenoldeb athrawon i ysgolion; a

A9 gofyn am adborth ar ansawdd staff cyflenwi y maent yn eu cofrestru, a'i gofnodi, a defnyddio'r wybodaeth hon at ddibenion rheoli ansawdd.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A10 ddarparu gwell mynediad i staff cyflenwi at y rhaglenni hyfforddi cenedlaethol hynny sydd ar gael i athrawon mewn swyddi parhaol.

**Teitl: Arfer dda mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 –  
Medi 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni gradd C neu'n uwch mewn mathemateg TGAU wedi cynyddu wyth pwynt canran er 2007. Fodd bynnag, mathemateg yw'r pwnc craidd â'r perfformiad isaf o hyd yng nghyfnod allweddol 4 yng Nghymru. Mae cynnydd o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 yn wannach mewn mathemateg nag yn y pynciau craidd eraill, er gwaethaf y ffaith fod cyrhaeddiad ar lefel 6 ac yn uwch ac ar lefel 7 ac yn uwch yn gryfach mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 3.
- 2 Y cyrhaeddiad mewn mathemateg ar radd C ac yn uwch yng Nghymru yw'r isaf yn y DU. Y llynedd, roedd bwlch o 11 pwynt canran rhwng Cymru a Lloegr yn hyn o beth. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau a lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 3 a 4 yng Nghymru yn is na'r rhai a gyflawnir gan ddisgyblion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- 3 Mae gan yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn ganlyniadau cryf mewn mathemateg. Mae safonau'n dda neu'n well mewn llawer o'r gwersi a arsylwyd. Mewn tua chwarter o wersi, mae safonau'n rhagorol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn dangos medrau rhif ac algebra rhugl ac yn gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd mathemateg. Maent yn cymhwyso eu medrau'n dda i ddatrys problemau bywyd go iawn penagored, yn dangos medrau meddwl da iawn ac yn mynegi eu meddyliau'n glir. Maent yn rhoi esboniadau a chyfiawnhad da pan gânt eu holi.
- 4 Mae safonau'n ddigonol neu'n is mewn rhai o'r gwersi yn unig a arsylwyd yn yr arolwg hwn. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd galw i gof fedrau rhif ac algebra allweddol yn gyflym a chywir. Mae hyn yn arafu eu dysgu mewn meysydd mathemateg newydd. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn gweithio ar lefelau eithriadol o isel oherwydd cynnwys y wers. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys llawer o waith a addysgwyd yn flaenorol o gyfnodau allweddol cynharach.
- 5 Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae agweddau disgyblion at ddysgu yn dda iawn. Mewn llawer o wersi, mae disgyblion wedi eu cymell yn dda, maent yn barod i gymryd rhan ac yn ymroi yn gydwybodol i wneud gweithgareddau dysgu.

- 6 Mae addysgu yn dda neu'n well mewn llawer o'r gwersi a arsylwyd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn ac mae ganddynt arbenigedd addysgu da. Mewn gwersi y barnwyd eu bod yn dda neu'n well, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn gosod tasgau heriol. Caiff gwersi eu cynllunio'n dda ac maent yn symud yn gyflym trwy ystod o weithgareddau cadarn, sy'n darparu'n fedrus ar gyfer yr amrediad gallu. Yn y gwersi hyn, caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i ailedrych ar fedrau mathemategol, eu datblygu a'u cymhwyso mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Hefyd, mae gweithgareddau buddiol yn nodi camgymeriadau a chamsyniadau cyffredin. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion yn eu dysgu.
- 7 Mewn rhai gwersi a arsylwyd, mae meysydd pwysig i'w gwella mewn addysgu. Yn y gwersi hyn, nid yw gwaith yn ddigon heriol ac nid yw'r cynllunio yn adeiladu'n ddigonol ar brofiadau blaenorol disgyblion. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys cyfran sylweddol o waith a addysgwyd yn y gorffennol, er enghraifft, disgyblion abl ym Mlwyddyn 11 yn gweithio ar destunau fel cymesuredd, priodoleddau siapiau syml a chyfaint sylfaenol, sy'n briodol ar gyfer disgyblion llawer iau.
- 8 Mae mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio asesu'n dda i lywio dysgu disgyblion a monitro eu cynnydd. Yn yr ysgolion hyn, mae gweithdrefnau asesu yn rheolaidd a thrylwyr, ac fe gaiff gwybodaeth ei chofnodi'n aml a'i rhannu gydag athrawon, disgyblion a rhieni neu warcheidwaid. Mewn rhai ysgolion, mae diffygion pwysig mewn asesu. Nid yw disgyblion yn yr ysgolion hyn yn ddigon ymwybodol o ba mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.
- 9 Nid yw disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 mewn asesiadau athrawon mewn mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn cael eu paratoi'n ddigon da mewn medrau rhif ac algebra i gael gradd C mewn TGAU.
- 10 Mae nifer gynyddol o ysgolion yn cofrestru disgyblion yn gynnar ar gyfer arholiadau mathemateg TGAU. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn cael eu cofrestru ar gyfer yr haen sylfaenol. Mae'r arfer hon yn golygu bod disgyblion sy'n gallu cyflawni uwchlaw gradd C yn cael eu rhoi dan anfantais. Mae arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a dadansoddi ffigurau cofrestru cynnar yn dangos bod lleiafrif o ysgolion yn canolbwyntio mwy ar wneud y mwyaf o berfformiad yn yr ysgol nag ar gyflwyno addysg fathemategol o ansawdd cynaliadwy y mae disgyblion yn ei haeddu.
- 11 Yn y mwyafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae arweinyddiaeth mewn adrannau mathemateg yn dda ar lefelau canol ac uwch, ac mae'n rhagorol mewn rhai achosion. Yn yr ysgolion lle mae arweinyddiaeth mewn mathemateg yn gryf, mae gan arweinwyr canol ac uwch rolau allweddol o ran gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Mae gan yr ysgolion hyn brosesau hunanarfarnu datblygedig y mae athrawon yn eu deall yn dda.
- 12 Yn y mwyafrif o ysgolion, mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon yn cael cyfleoedd i rannu arfer orau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae arsylwi cymheiriaid yn hyrwyddo arfer dda a deialog broffesiynol rhwng athrawon. Mae arweinwyr canol yn sicrhau bod cynlluniau gwaith cynlluniedig yn arddangos parhad a dilyniant cryf, adeiladu ac atgyfnerthu medrau a ddysgwyd yn flaenorol, gan ymestyn dysgu i feysydd newydd.

- 13 Mewn rhai ysgolion, mae meysydd pwysig i'w gwella mewn arweinyddiaeth. Nid yw gweithgareddau hunanarfarnu yn cynnwys ffocws digonol ar safonau gwaith disgyblion mewn gwersi a llyfrau. Yn ychwanegol, nid yw rhai arweinwyr canol yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb o sicrhau safonau uchel ar draws eu hadrannau, ac nid yw rhai uwch arweinwyr yn herio arweinwyr canol yn effeithiol i wneud gwelliannau.

Mewn rhai ysgolion yn unig y mae adrannau mathemateg wedi creu cysylltiadau cryf gyda'u hymgynghorwyr consortiwm rhanbarthol. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn elwa ar gyfleoedd priodol o ran datblygiad proffesiynol, adolygiadau allanol a rhwydweithio rheolaidd. Fodd bynnag, bach iawn o ysgolion sydd wedi gwneud cysylltiadau llwyddiannus gydag ysgolion eraill i wella addysgu mathemateg. At ei gilydd, ni roddir digon o gefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon mathemateg p'un a yw hynny gan ysgolion eraill, awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol.

### Argymhellion

I wella safonau mathemateg yng nghyfnod allweddol 4:

#### **dylai adrannau mathemateg:**

- A1 wneud yn siŵr bod disgyblion yn datblygu medrau rhif, algebra a datrys problemau cadarn yng nghyfnod allweddol 3;
- A2 gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn gwersi mathemateg trwy wneud yn siŵr bod:
- gwersi wedi'u strwythuro'n dda, yn ddifyr a heriol ac yn cysylltu'n dda â thestunau a phynciau eraill; a
  - bod medrau rhif ac algebra yn cael eu datblygu a'u cymhwyso mewn cyd-destunau newydd;
- A3 defnyddio asesiadau i roi gwybod i ddisgyblion sut maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella;
- A4 lleihau i'r eithaf nifer y disgyblion sy'n cael eu cofrestru'n gynnar ar gyfer TGAU mewn mathemateg a sicrhau bod disgyblion yn dilyn cyrsiau astudio sy'n galluogi iddynt gyflawni'r graddau uchaf;
- A5 seilio hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar dystiolaeth o arsylwi safonau disgyblion mewn gwersi mathemateg a chraffu ar eu gwaith; a
- A6 rhannu arfer orau mewn ysgolion a rhyngddynt a'i defnyddio i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon.

#### **Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

- A7 ddarparu cymorth, cyngor a chyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon mathemateg, gan gynnwys hyrwyddo rhwydweithiau proffesiynol i rannu arfer orau.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

- A8 gynorthwyo ysgolion a chonsortia rhanbarthol i godi safonau mewn mathemateg ar gyfer pob disgybl; ac
- A9 adolygu disgrifwyr lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyfnod allweddol 3 gyda'r bwriad o godi lefelau disgwyliadau ar lefel 5 mewn medrau rhif ac algebra.

**Teitl: Hyfforddiant ar gyfer adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig – Hydref 2013**

**Prif ganfyddiadau**

- 1 Mae'r holl sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith sy'n cyflwyno rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn parhau i gyflwyno'r cymwysterau medrau adeiladu traddodiadol craidd a fu ar gael ac y bu galw amdanynt ers blynnyddoedd lawer hefyd. Fodd bynnag, er y bu newidiadau yng nghynnwys cymwysterau adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig yn ddiweddar, nid ydynt bob amser yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr lleol yn llawn. Er enghraifft, nid yw llawer o ddysgwyr gwaith plymer yn cael profiad a chyfleoedd asesu yn rheolaidd wrth weithio ar reolyddion gwres canolog a gwresogi. Mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn aml yn dyblygu darpariaeth yn yr un ardal ddaearyddol ac nid ydynt yn rhoi digon o ystyriaeth i wybodaeth am y farchnad lafur leol.
- 2 Ni waeth faint o waith sydd ar gael, mae adeiladu yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd ar gyfer hyfforddi ymhlith dysgwyr. At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi ac yn ennill cymwysterau eraill arnynt wedi gwella dros y cyfnod rhwng 2009 a 2011. Fodd bynnag, dim ond cymedrol yw perfformiad o gymharu â pherfformiad mewn meysydd dysgu eraill. Yn y cyfnod 2010 i 2011, roedd rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig mewn sefydliadau addysg bellach yn y deuddegfed safle o'r 19 o feysydd dysgu ar gyfer cyfraddau cwblhau llwyddiannus dysgwyr. Mewn dysgu yn y gwaith, roeddent yn y nawfed safle o'r 11 o feysydd dysgu ar gyfer cyfran y dysgwyr yn cwblhau eu fframwaith cymhwyster llawn.
- 3 At ei gilydd, mae'r gyfradd y mae dysgwyr yn symud ymlaen o raglenni lefel 1 i lefel 2 a rhaglenni lefel 2 i lefel 3 arni yn debyg i'r gyfradd mewn rhaglenni crefft galwedigaethol eraill. I gwblhau rhaglenni lefel 3, mae angen i ddysgwyr gael eu cyflogi neu fod wedi cael profiad sylweddol mewn gweithle. Fodd bynnag, ni sicrhair profiad gwaith ar gyfer pob dysgwr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach, ac yn aml, mae'n rhaid iddynt drefnu eu lleoliadau eu hunain. Yn rhy aml, nid yw dysgwyr naill ai'n elwa ar brofiad gwaith neu maent yn manteisio ar brofiad gwaith ad-hoc nad yw bob amser yn gweddu'n dda i'w hanghenion hyfforddi ac asesu. Nid yw dysgwyr nad ydynt yn manteisio ar brofiad gwaith yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion ac arferion gweithio ar y safle i safonau diwydiant. Mae hyn

yn cynnwys dysgwyr amser llawn lefel 2 sy'n bryderus iawn na fyddant yn cael y cyfle i symud ymlaen i raglenni lefel 3 oherwydd diffyg profiad gwaith priodol. Mae'r dirywiad yn yr economi a sector adeiladu wedi cyfrannu at y ffaith fod llai o leoliadau gwaith ar gael hefyd.

- 4 Mae gormod o ddysgwyr sy'n dilyn ac yn cwblhau rhaglenni mewn sefydliadau addysg bellach nad ydynt yn mynd ymlaen i gael swydd yn y diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, mae'r gyfradd y mae prentisiaid yn parhau i gael eu cyflogi yn y sector adeiladu arni yn dda.
- 5 Mae rhai dysgwyr yn symud ymlaen i ddilyn rhaglenni addysg uwch (AU). Mae'r rhaglenni hyn ar lefel 4 yn gyffredinol, ac fe'u cyflwynir gan sefydliadau addysg bellach trwy drefniadau rhyddfrait gyda'r sefydliadau AU. Cymru sydd â'r gyfran isaf o ddysgwyr yn dilyn y rhaglenni hyn yn y Deyrnas Unedig (DU) ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer fach o gyfleoedd am swyddi sydd ar gael yng Nghymru.
- 6 Mae mwyafrif y sefydliadau addysg bellach wedi datblygu a chyflwyno rhaglenni sy'n gysylltiedig â thechnolegau amgylcheddol newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y rhaglenni hyn eu sefydlu gyda lefelau da o nawdd gan weithgynhyrchwyr a chyflenwyr.
- 7 Mae lleiafrif o sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd lleol i gyflwyno rhaglenni adeiladu. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol perthnasol ar gyfer pobl ifanc o ysgolion lleol. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu ystod dda o raglenni rhagarweiniol sy'n cynnig dilyniant i hyfforddiant a chymwysterau mewn crefftiau. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn defnyddio'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael yn eu sefydliadau addysg bellach a'u darparwyr dysgu yn y gwaith lleol i helpu cyflwyno'r rhaglenni hyn.
- 8 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar sesiynau ymarferol yn gysylltiedig â masnachau, sy'n rhoi cyfleoedd da iddynt ddatblygu eu medrau ymarferol sylfaenol mewn amgylcheddau priodol. Fodd bynnag, ni chaiff mwyafrif y dysgwyr eu herio'n effeithiol gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddatblygu safonau uwch o gymhwysedd ymarferol. Yn yr achosion hyn, dim ond y medrau ymarferol a'r wybodaeth am theori a fydd yn eu galluogi i lwyddo mewn asesiadau y mae dysgwyr yn eu datblygu.
- 9 At ei gilydd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd y cymorth y mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn ei roi i ddysgwyr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mewn sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith, nid yw lleiafrif o staff adeiladu yn cydnabod manteision cefnogi dysgwyr i wella eu llythrennedd a'u rhifedd. Yn yr achosion hyn, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd llythrennedd a rhifedd. Nid yw dysgwyr bob amser yn elwa ar adborth ysgrifenedig adeiladol ar eu gwaith gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr a fyddai'n eu galluogi i wella eu perfformiad. Ni chaiff cymorth llythrennedd a rhifedd ei integreiddio'n effeithiol yn yr holl raglenni.

- 10 Mae arweiniad ar yrfaeodd yn aml yn aneglur ac yn aml yn cael ei gamgyfeirio. Mewn gormod o achosion, mae ymgynghorwyr gyrfaeodd ysgol yn cyfeirio dysgwyr, bechgyn llai abl yn bennaf, at hyfforddiant crefftau adeiladu fel dewis gyrfa addas. Mae hyn yn aml yn wir gyda dysgwyr sy'n aflonyddgar yn y dosbarth, sydd â chofnod presenoldeb gwael ac sydd wedi eu dadrithio â'r ysgol yn gyffredinol. Mewn gwirionedd, efallai nad adeiladu yw'r llwybr mwyaf priodol ar gyfer y dysgwyr hyn bob tro. Mae'r ysgolion gwell yn sicrhau bod cyrsiau rhagflas mewn sectorau eraill ar gyfer yr unigolion hyn er mwyn iddynt allu cael dewis gwybodus gwell am eu hyfforddiant yn y dyfodol.
- 11 Yn gyffredinol, nid yw darparwyr yn gwneud digon i ddatblygu a chynnal cysylltiadau effeithiol gyda diwydiant lleol. Nid oes digon o ddarparwyr yn elwa ar ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr trwy grwpiau llywio neu ymgynghori. Mewn sefydliadau addysg bellach, nid yw athrawon ac aelodau eraill o staff yn gwneud digon yn gyson i wneud yn siŵr bod cysylltiadau â chyflogwyr yn cael eu cynnal i sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar brofiad gwaith rhaglenedig, trefnus a strwythuredig.
- 12 Nid yw mwyafrif yr athrawon, yr hyfforddwyr a'r aseswyr wedi gweithio yn y diwydiant ers llawer o flynyddoedd, ac nid oes ganddynt brofiad diwydiannol cyfoes.

### Argymhellion

#### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 drafod gyda darparwyr i ariannu rhaglenni sy'n gweddu i anghenion y farchnad lafur; a
- A2 gwneud y fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru yn fwy perthnasol i anghenion diwydiant trwy ddarparu dewis gwell o unedau dewisol yn ogystal ag elfennau craidd y rhaglen, a sicrhau bod y fframwaith yn cynnwys ffocws ar llythrennedd a rhifedd.

#### Dylai darparwyr addysg a hyfforddiant:

- A3 wella ansawdd eu rhwydweithiau a'u perthnasoedd gyda chyflogwyr lleol;
- A4 gwella'r gyfradd y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau a'u fframweithiau arni;
- A5 integreiddio llythrennedd a rhifedd yn llawn yn yr holl raglenni a gwneud yn siŵr bod athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr wedi'u paratoi i gefnogi anghenion llythrennedd a rhifedd dysgwyr;
- A6 herio dysgwyr i ddatblygu ac ennill medrau ymarferol a gwybodaeth am theori ar lefel uwch;
- A7 rhaglennu a threfnu lleoliadau profiad gwaith diwydiannol ar gyfer yr holl ddysgwyr amser llawn mewn sefydliadau addysg bellach;
- A8 defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn fwy effeithiol i baru'r ddarpariaeth

â chyfleoedd cyflogaeth leol, gan reoli'r galw gan ddysgwyr trwy ddefnyddio cyngor ac arweiniad effeithiol; a

A9 diweddarau profiad a gwybodaeth ddiwydiannol athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn rheolaidd.

## **Teitl: Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol – Rhagfyr 2013**

### **Prif ganfyddiadau**

- 1 Er bod llawer o ysgolion wedi canolbwyntio mwy ar bwysigrwydd gwella safonau a lles disgyblion sydd dan anfantais yn ddiweddar, nid yw pob ysgol yn rhoi blaenoriaeth ddigon uchel i fynd i'r afael â thlodi o hyd. Er enghraifft, lleiafrif o ysgolion yn unig oedd â chynlluniau penodol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd ar leihau effaith tlodi ar gyraeddiad yn 2012-2013.
- 2 Mae'r nifer fach o ysgolion sy'n llwyddo i godi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais yn canolbwyntio ar anghenion pob dysgwr unigol. Pan fydd gan ddysgwyr anghenion cymhleth na all yr ysgol eu bodloni ar ei phen ei hun, mae'r ysgolion hyn yn gweithio gydag asiantaethau i ddarparu gwasanaethau eang yn gysylltiedig â'r teulu i fodloni'r anghenion hynny neu gallent weithio gyda gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion iechedd a lles penodol. Er enghraifft, mae rhai ysgolion yn cynnal clinigau a chanolfannau galw i mewn ar gyfer iechedd, cwrsela a gwasanaethau cymdeithasol ar safle'r ysgol.
- 3 Mae rhai ysgolion sydd â disgyblion newydd sydd dan anfantais, fel y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg, yn ymgysylltu â theuluoedd trwy greu amgylchedd croesawgar. Mae'r ysgolion hyn yn sefydlu ystafelloedd teuluol neu ystafelloedd anogaeth lle gall plant ddysgu gyda'u teuluoedd am gyfnod. Gall gweithio yn yr ystafelloedd hyn ddarparu'r cymorth cymdeithasol ac emosiynol sydd ei angen ar blant a'u teuluoedd wrth ymgynefino mewn ysgol neu gymuned newydd.
- 4 Mae disgyblion mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn nulliau 'Tîm o amgylch y teulu'<sup>3</sup> yn elwa ar weithio amlasiantaethol. Mae'r gronfa o fedrau o fewn y tîm yn golygu y gellir mynd i'r afael â phryderon iechedd, domestig a lles cymdeithasol dysgwyr a'u teuluoedd. Mae llawer o ysgolion yn nodi y cafwyd deilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr sydd wedi cael cymorth trwy'r fenter hon. Nodwyd diffygion gan leiafrif o ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw wrth roi'r model hwn ar waith, gan gynnwys methu sicrhau bod yr holl asiantaethau yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd i drafod cynnydd a chytuno ar strategaethau.
- 5 Mae'n her i ysgolion gydlynw a rheoli gwaith sawl partner allanol. Mae'n arwyddocaol fod y nifer fach o ysgolion sy'n codi safonau a gwella lles dysgwyr sydd

<sup>3</sup> Tîm amlddisgyblaethol o ymarferwyr sydd wedi'i sefydlu ar sail achos wrth achos i gynorthwyo plentyn, unigolyn ifanc neu deulu yw Tîm o Amgylch y Teulu (TAF).



dan anfantais yn pennu uwch aelod o staff i gydlynu gwaith gyda phartneriaid. Mae'r ysgolion hyn yn gwybod am, ac yn deall, y cymorth a gaiff y disgybl gan bartner allanol ac mae staff yn monitro cynnydd yn ofalus.

- 6 Mae rhai ysgolion yn cydgyfrannu eu hadnoddau mewn strategaethau a hyfforddiant ar y cyd i fynd i'r afael ag anfantais, ond prin yw'r 'cymunedau dysgu proffesiynol' o athrawon o glwstwr o ysgolion sy'n canolbwyntio ar dlodi yn uniongyrchol. Mae rhai ysgolion wedi cynllunio dulliau o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais ar draws sectorau trwy eu gwaith clwstwr. Mae hyn wedi helpu'r disgyblion i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd trwy eu cynorthwyo, er enghraifft yn eu dysgu cymdeithasol ac emosiynol, ac mewn llythrennedd.
- 7 Mewn rhai clystyrau, mae cydgyfrannu adnoddau, fel cyllid o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, wedi helpu athrawon o ysgolion uwchradd a chynradd i ddeall materion ei gilydd. Dywedodd rhai penaethiaid ysgolion uwchradd yn ein harolwg fod y trefniant hwn wedi codi eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar.
- 8 Yn yr achosion gorau, mae ysgolion yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith asiantaethau allanol yn erbyn mesurau clir o berfformiad dysgwyr. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio data i arfarnu effaith mentrau newydd a rhannu gwybodaeth am berfformiad gyda phartneriaid i helpu i uno dulliau'r ysgol ag ymyriadau eraill.
- 9 Yn sgil cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion, ehangwyd ystod y strategaethau i godi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, defnyddir y grant i wella cyflawniad yr holl ddysgwyr is eu gallu ac nid yw wedi'i gyfeirio'n benodol tuag at ddysgwyr sydd dan anfantais, er y bydd y gwariant yn parhau i fod o fudd iddynt os yw eu cyflawniad yn isel. Yn yr ysgolion hyn, mae diffygion yn y modd y caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei wario sy'n debyg i'r rhai a nodwyd gan Estyn mewn perthynas â chyllid Rhagori yn y gorffennol<sup>456</sup>.
- 10 Er bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith tlodi, ychydig ohonynt yn unig sydd wedi gwella safonau a lles dysgwyr sydd dan anfantais yn sylweddol. Mae'r nifer fach o awdurdodau lleol sy'n codi safonau a gwella lles dysgwyr sydd dan anfantais yn defnyddio dull ataliol o fynd i'r afael ag effaith tlodi. Maent yn dechrau gyda dadansoddiad trylwyr o anghenion i nodi effaith amddifadedd ar deuluoedd lleol. Mae amlinellu anghenion teuluoedd sydd dan anfantais yn golygu y gall yr awdurdod lleol rannu gwybodaeth gydag ysgolion a phartneriaid a darparu gwaelodlin i fesur effaith mentrau newydd ohono.
- 11 Nid yw awdurdodau lleol bob amser yn rhannu gwybodaeth am ddysgwyr sydd dan anfantais gydag asiantaethau a gwasanaethau eraill. Mae gwahanol wasanaethau yn casglu eu rhestrau eu hunain o blant a phobl ifanc sydd dan anfantais. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynllunio cronfa ddata unigol a chynhwysfawr o wybodaeth am ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr. Byddai cronfa ddata felly yn galluogi staff i gael darlun llawnach o anghenion dysgwyr unigol a gellid ei defnyddio i ategu dull cyffredin.

---

<sup>4</sup> Effaith Rhagori 2008-2009: arfarniad o gyllid Rhagori ar godi lefelau perfformiad disgyblion sydd dan anfantais, Estyn, 2009

<sup>5</sup> Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010

<sup>6</sup> Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011

- 12 Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn llwyddiannus wrth ddod â chynlluniau gwasanaeth ar gyfer addysg, ieuenctid a gwasanaethau cymdeithasol at ei gilydd i ddatblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Maent wedi llunio cynllun integredig i gydlynu gwasanaethau ac osgoi dyblygu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw gwahanol wasanaethau mewn awdurdod lleol neu gonsortia yn alinio eu cynlluniau nac yn defnyddio dangosyddion perfformiad cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â thlodi. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd mesur cynnydd ar y cyd.
- 13 Mae gan leiafrif o awdurdodau lleol dargedau a dangosyddion perfformiad penodol sy'n gysylltiedig â chau'r bwllch mewn deilliannau rhwng dysgwyr breintiedig a dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn mesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o awdurdodau lleol amcanion penodol na thargedau mesuradwy. Nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chasglu yn ddigon da i herio ysgolion i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais.
- 14 Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn darparu rhywfaint o hyfforddiant i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais ac arweiniad arall ar sut i ddefnyddio cyllid grant. Fodd bynnag, nifer fach o awdurdodau lleol yn unig sy'n rhoi cyngor da i ysgolion ynglŷn â sut i ddefnyddio eu harian Grant Amddifadedd Disgyblion. Nid oes digon o gyfleoedd hyfforddi i arweinwyr ysgol ddysgu am ddulliau strategol o fynd i'r afael ag effaith tlodi, gan gynnwys sut i gynllunio ac arfarnu gwahanol ddulliau a pha mor dda y maent yn gweithio.

## Argymhellion

### **Er mwyn parhau i wella perfformiad dysgwyr sydd dan anfantais, dylai ysgolion:**

- A1 fabwysiadu systemau clir ar gyfer gweithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais, er enghraifft dull y 'Tîm o amgylch y teulu';
- A2 gweithio gydag asiantaethau eraill i ennyn diddordeb teuluoedd sydd dan anfantais yn fwy ym mywyd yr ysgol;
- A3 gweithio'n agosach gydag ysgolion partner i ddatblygu dull cyffredin o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- A4 pennu uwch aelod o staff i gydlynu gwaith gyda gwasanaethau ac asiantaethau allanol;
- A5 gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod sut i wella cyflawniad dysgwyr sydd dan anfantais;
- A6 defnyddio systemau i olrhain cynnydd disgyblion er mwyn arfarnu mentrau sy'n ceisio gwella lles a safonau; a
- A7 defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu anghenion disgyblion sydd dan anfantais yn benodol, beth bynnag fo'u gallu.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

- A8 weithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau perthnasol i amlinellu anghenion penodol disgyblion sydd dan anfantais a'u teuluoedd a rhannu'r wybodaeth hon gydag ysgolion ac asiantaethau eraill ar sail protocol cytûn;
- A9 defnyddio dull ataliol o fynd i'r afael â thlodi a defnyddio dulliau 'Tîm o amgylch y teulu' wrth gydlynu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd dan anfantais;
- A10 gwneud yn siŵr bod cynlluniau strategol i fynd i'r afael â thlodi yn cael eu halinio i gynnwys gwasanaethau mewnol a phartneriaid allanol a'u bod yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy;
- A11 darparu hyfforddiant a chymorth i ddatblygu medrau arweinwyr ysgol i reoli gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â thlodi; a
- A12 darparu neu drefnu cyngor gwell i ysgolion ar ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael ag effaith tlodi.

**Teitl: Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen – Dat blygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd a'r sector nas cynhelir – Rhagfyr 2013**

**Safonau a chynnydd mewn Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen**

- 1 Yn ôl asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen 2011-2012, mae tua 86% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng-Cymraeg ar draws Cymru'n cyflawni yn ôl y disgwyl (deilliant 5 neu uwch) yn y maes dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg). Mae hyn yn cymharu'n dda â chanlyniadau sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (84.3%). Er bod canlyniadau ar y lefelau uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn debyg ar gyfer sgiliau iaith llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg), sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Saesneg) a datblygiad mathemategol, maent yn sylweddol uwch ym maes datblygiad personol, cymdeithasol a lles.
- 2 Yn y mwyafrif o ysgolion a lleoliadau cyfrwng-Cymraeg a arolygwyd, mae safonau siarad a gwrando plant 3-4 oed yn datblygu'n dda. Gallant sgwrsio'n gynyddol effeithiol gyda'i gilydd a'u hathrawon wrth ymgymryd â'u gweithgareddau. Mae llawer o blant yn mwynhau darllen ac yn cael pleser o wrando ar stori. Maent yn hoffi trin a thrafod llyfrau, a siarad am yr hyn maent yn ei ddarllen neu sy'n cael ei ddarllen iddynt. Gall ychydig o blant ddarllen geiriau cyfarwydd, megis eu henwau neu labeli ar offer a dodrefn yn llwyddiannus. Mae llawer o'r plant hyn yn ymroi'n llwyddiannus i wneud marciau cychwynnol a chreu patrymau fel sail i ddatblygu eu medrau ysgrifennu.

- 3 Mae safonau cyffredinol disgyblion 4-7 oed yn Gymraeg yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu geirfa lafar effeithiol mewn ystod amrywiol o gyd-destunau yn yr ardaloedd dysgu ac yn datblygu gallu cynyddol i sgwrsio a thrafod yn hyderus gyda'i hathrawon a chyda'i gilydd. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddewis a defnyddio ffynonellau darllen amrywiol ac maent yn datblygu eu medrau darllen mewn amrywiaeth dda o gyd-destunau. Er hynny, nid yw medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu cystal. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn or-ddibynnol ar gymorth a chanllawiau gan athrawon. Nid yw eu gwaith ysgrifenedig ar draws y meysydd dysgu yn ddigon cywir a thaclus.
- 4 Mae cefndiroedd a medrau ieithyddol plant yn y Gymraeg yn amrywio pan fyddant yn dechrau mewn lleoliad nas cynhleir neu ysgol. Yn y lleoliadau a'r ysgolion hynny sy'n darparu ar gyfer disgyblion o gefndiroedd ieithyddol tebyg, mae medrau ieithyddol y disgyblion yn datblygu'n gyson. Fodd bynnag, mewn ychydig o'r lleoliadau ac ysgolion hynny lle mae cefndir y disgyblion yn gymysg o safbwynt iaith y cartref, mae cynnydd gormod o blant o gartrefi di-Gymraeg yn rhy araf, a chynnydd rhai plant o gartrefi Cymraeg yn cael ei lesteirio.
- 5 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw plant yn gwneud y cynnydd disgwylidig yn eu medrau llafar, darllen, gwrando ac ysgrifennu. Yn yr ysgolion hyn, er bod sesiynau ffocws yn canolbwyntio'n gadarn ar ddatblygu medrau iaith, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i'w cymhwyso'n llwyddiannus ar draws ystod o weithgareddau dysgu ac mewn ardaloedd gweithgarwch gwahanol.

#### **Y ddarpariaeth addysgol a'r amgylchedd dysgu**

- 6 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau a llawer o ysgolion yn llwyddo i greu cydbwysedd da rhwng profiadau uniongyrchol, anffurfiol eu naws, a gweithgareddau ffocws sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu.
- 7 Mewn llawer o ysgolion a lleoliadau, mae'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol ac yn amrywiol. Mae'r lleoliadau a'r ysgolion hyn yn darparu ardaloedd gweithgarwch i drochi plant mewn profiadau a gweithgareddau iaith y tu fewn a thu allan i'r adeilad. O ganlyniad, mae disgyblion yn llwyddo i gaffael iaith i safon briodol i'w hoed a'u gallu wrth ymgymryd â gweithgareddau mewn nifer o'r meysydd dysgu. Mae hyn yn hybu eu medrau darllen ac ysgrifennu hefyd.
- 8 Mewn ychydig o ysgolion nid oes cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau ffocws a gweithgarwch mwy anffurfiol, yn arbennig ym Mlynnyddoedd 1 a 2. Mae pwyslais mawr ar ddatblygu medrau ieithyddol mewn sesiynau ffurfiol, ond nid yw'r ardaloedd gweithgarwch yn gyffredinol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ieithyddol mewn cyd-destunau amrywiol. Mae athrawon yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion heb roi digon o ystyriaeth i athroniaeth ganolog y Cyfnod Sylfaen.
- 9 Mewn llawer o leoliadau mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus ac yn sicrhau bod y profiadau a'r adnoddau sydd ar gael i'r plant yn gosod seiliau cadarn i'r plant ddatblygu eu medrau iaith. Mae hyn yn wir hefyd yn y mwyafrif o ysgolion

- 10 Yn y lleoliadau a'r ysgolion hyn, mae'r ardaloedd gweithgarwch yn darparu cyfleoedd penodol i ddisgyblion ymgymryd â thasgau sy'n datblygu eu medrau iaith yn benodol. Mae'r ddarpariaeth barhaus yn herio'r plant i adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol. Mae mwyafrif yr athrawon a'r cynorthwywyr yn cefnogi dysgu'r disgyblion trwy ymyrraeth fedrus i fwydo geirfa a chystrawennau iaith cryf a chynnig modelau iaith ardderchog i'r disgyblion. Yn y lleiafrif o'r ysgolion a'r lleoliadau hyn lle nad yw'r gefnogaeth hon ar gael, nid yw medrau iaith disgyblion yn datblygu'n briodol.
- 11 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion fel ei gilydd, mae athrawon yn darparu tasgau a heriau iaith penodol ar gyfer plant. Maent yn rhoi blaenoriaeth gadarn i ddatblygu medrau Cymraeg y plant, a hynny mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Ychydig o ysgolion sy'n gosod heriau iaith penodol ar gyfer disgyblion 4-7 oed ar draws yr ardaloedd gweithgarwch. Lle mae hyn yn digwydd, mae llawer o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddynt ac yn ymarfer a datblygu eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu mewn dull effeithiol iawn.
- 12 Yn y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau, mae gweithgareddau ffocws ar gyfer datblygu medrau iaith grwpiau o ddisgyblion yn cael eu targedu'n briodol fel bod plant yn cael y budd mwyaf ohonynt. Mae mwyafrif yr athrawon, ymarferwyr a chynorthwywyr yn cynnig modelau iaith da sy'n ysgogi plant i gaffael iaith goeth a chywir. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o leoliadau nas cynhelir, yn fwyaf arbennig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o bobl yn siarad Cymraeg, nid yw safon a chywirdeb iaith ymarferwyr yn ddigon da i gynnig model raenus ar gyfer plant.
- 13 Lle mae plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg o fewn yr un sefydliad, yn yr arfer orau, mae'r athrawon yn cynllunio i sicrhau bod sbardun a chynhaliath effeithiol i ddatblygu iaith pob disgybl. Darparant heriau a gweithgareddau sydd wedi eu targedu'n dda i ymateb i anghenion ieithyddol y disgyblion. Er hynny, mewn gormod o'r ysgolion hyn nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol i sicrhau bod plant o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn gwneud y cynnydd priodol o'u man cychwyn.
- 14 Mewn ychydig o ysgolion a lleoliadau, nid oes dealltwriaeth gadarn gan athrawon ac ymarferwyr o hanfodion y dull trochi o addysgu. O ganlyniad, nid ydynt yn bwydo a modelu'r Gymraeg yn ddigon cadarn i'r disgyblion, ac nid yw eu disgwyliadau yn ddigon uchel. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cynorthwywyr dysgu yn glynu at ddefnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion o gartrefi di-Gymraeg ac mae hyn yn llesteirio cynnydd.
- 15 Mewn ysgolion llai eu maint, mae ystod oed eang o ddisgyblion o dan ofal athro/athrawes. Oherwydd bod gwahaniaethau mewn cymhareb disgybl i oedolyn wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, nifer cyfyngedig o gynorthwywyr sydd ar gael. Yn y sefyllfa hon, yn rhy aml, nid yw gweithgareddau'n cael eu targedu'n ddigon da i ddiwallu anghenion pob disgybl, ac nid yw medrau iaith disgyblion yn datblygu'n briodol.
- 16 Mae lleoliadau sydd ag adeiladau pwrpasol wedi eu neilltuo ar gyfer addysg gynnar wedi datblygu ardaloedd allanol da i hybu cynnydd plant. Fodd bynnag, lle mae lleoliadau'n cyfarfod mewn ystafelloedd neu adeiladau dros dro, megis neuaddau pentref, nid yw'r mwyafrif ohonynt wedi llwyddo i ddatblygu ardaloedd effeithiol. Er hyn, mae ychydig ohonynt yn gwneud trefniadau da i gydweithio ag ysgolion i hybu'r agwedd hon.

### **Arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwella**

- 17 Mewn ychydig o ysgolion, nid yw arweinwyr nac athrawon yn dangos digon o ddealltwriaeth o athroniaeth ganolog y Cyfnod Sylfaen. Oherwydd y flaenoriaeth genedlaethol gyfredol ar ddatblygu llythrennedd, maent yn gweld tensiwn rhwng athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a'r angen i gynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau iaith a llythrennedd. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn medru cymhwyso eu medrau iaith yn llwyddiannus ar draws ystod o gyd-destunau. Mae hyn yn fwy amlwg ym Mlynnyddoedd 1 a 2.
- 18 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion a'r lleoliadau yn llwyddo i sicrhau bod ganddynt staff a hyfforddwyd yn briodol i weithredu yn ôl athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr mewn lleoliadau a chyda plant 3 i 4 oed mewn ysgolion hefyd, ar y cyfan, yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu iaith, cyfathrebu a llythrennedd plant. Lleiafrif o ysgolion, ac ychydig iawn o leoliadau, sy'n olrhain cynnydd ieithyddol y disgyblion, ac yn monitro'r ddarpariaeth yn barhaus er mwyn arfarnu a yw hi'n arwain at gynnydd yn y dysgu.
- 19 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi llwyddo i addasu'r amgylchedd dysgu y tu allan i'r adeilad i sicrhau amrywiaeth o gyd-destunau a phrofiadau dysgu sy'n hybu sgiliau iaith a chyfathrebu disgyblion. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw'r ardal allanol wedi ei chynllunio'n ddigon gofalus i ddarparu gweithgareddau sy'n ysgogi plant i ddatblygu eu medrau iaith a llythrennedd. Yn yr ysgolion hyn, mae tuedd i beidio â rhoi digon o gyfleoedd i blant hŷn y Cyfnod Sylfaen fanteisio ar gyfleoedd datblygu yn yr ardal allanol.
- 20 Mae mudiadau gwirfoddol sy'n rheoli lleoliadau, megis y Mudiad Meithrin, yn sicrhau bod arweinwyr a phwyllgorau rheoli y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir yn deall ac yn gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda, ac maent yn cynllunio'n effeithiol i wella'r ddarpariaeth.
- 21 Mewn ysgolion, mae ymrwymiad a dealltwriaeth arweinwyr yn fwy amrywiol. Yn yr arfer orau, mae hunanarfarnu a chynlluniau gwella yn rhoi sylw clir i ddatblygu'r Gymraeg o fewn athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Yn yr ychydig o leoliadau ac ysgolion lle nad yw'r arweinyddiaeth cystal, nid yw'r arweinwyr yn rhoi digon o sylw i sicrhau cydberthynas effeithiol rhwng datblygiad y Gymraeg ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen.
- 22 Mae awdurdodau lleol a mudiadadau sy'n rheoli lleoliadau nas cynhelir yn darparu cefnogaeth effeithiol i ysgolion a lleoliadau yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o awdurdodau lleol yn darparu'r gefnogaeth honno trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion a lleoliadau:

- A1 sicrhau bod cyfleoedd penodol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu ac yn y gwahanol ardaloedd gweithgarwch;
- A2 sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng sesiynau ffurfiol i addysgu ac atgyfnerthu medrau iaith a chyfleoedd anffurfiol i'w defnyddio;
- A3 datblygu gweithgareddau a chyfleoedd dysgu sy'n sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn;
- A4 gosod disgwyliadau clir fydd yn sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn defnyddio'r Gymraeg wrth iddynt ddilyn gweithgareddau anffurfiol, yn arbennig ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen;
- A5 gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymarferwyr ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fel eu bod yn bwydo a modelu Cymraeg o safon dda i'w disgyblion ar draws y meysydd dysgu;
- A6 olrhain cynnydd medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn gyson ar hyd y Cyfnod Sylfaen; a
- A7 rhoi sylw priodol i ansawdd y ddarpariaeth a safonau yn y Cyfnod Sylfaen fel rhan o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwella ysgolion a lleoliadau.

### Dylai awdurdodau lleol a mudiadau sy'n rheoli lleoliadau nas cynhelir:

- A8 ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant i ymarferwyr ar ddulliau trochi o ddysgu iaith ac i roi arweiniad ar sut y gellir datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) mewn ffordd sy'n gydnaws ag athroniaeth a methodoleg y Cyfnod Sylfaen;
- A9 darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwywyr, i loywi eu Cymraeg, lle bo angen hynny;
- A10 rhannu arfer dda o ran datblygu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (Cymraeg) ar draws meysydd dysgu ac ardaloedd gweithgarwch yn y Cyfnod Sylfaen; a
- A11 sicrhau bod darpariaeth gefnogol awdurdodau lleol i leoliadau nas cynhelir cyfrwng-Cymraeg ar gael yn Gymraeg.

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A12 sicrhau bod awdurdodau ac ysgolion yn deall y gyd-berthynas rhwng methodoleg ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

## Teitl: Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol – Rhagfyr 2013

### Prif ganfyddiadau

- 1 Mae'r adroddiad yn nodi gwahaniaethau ym mherfformiad ysgolion bach, canolig a mawr o ran barnau arolygu, a chanlyniadau arholiadau ac asesiadau. Mae'r gwahaniaethau'n fach ar y cyfan ac yn cynrychioli tueddiadau nad ydynt yn pennu perfformiad pob ysgol unigol. Gall ysgolion o bob maint berfformio'n dda neu'n wael.
- 2 Dengys yr adroddiad fod ysgolion cynradd ac uwchradd mawr yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion bach a chanolig. Ceir tystiolaeth gref<sup>7</sup> bod ysgolion uwchradd mewn ardaloedd breintiedig yn tueddu i berfformio'n well nag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig, ond bod effaith yr anfantais yn wannach ar gyfer ysgolion cynradd. Mae dadansoddiad ystadegol o ddata arolygu, arholi ac asesu yn awgrymu bod ysgolion uwchradd mawr yn perfformio'n well ar gyfartaledd nag ysgolion uwchradd bach a chanolig gan eu bod yn tueddu i fod yn fwy breintiedig. Nid yw ffactorau'n ymwneud ag anfantais yn esbonio pam mae ysgolion cynradd mawr yn perfformio'n well nag ysgolion cynradd bach a chanolig.
- 3 Nodwedd gyffredin mewn ysgolion llwyddiannus yw arweinyddiaeth dda. Mae pob ysgol, beth bynnag fo'i maint, yn gallu perfformio'n dda lle mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda neu'n rhagorol. Pan mae perfformiad cyffredinol ysgolion yn ddigonol neu'n anfoddhaol, mae gwendidau yn ansawdd yr arweinyddiaeth bron bob amser.

### Ysgolion cynradd

- 4 Y duedd yw bod angen llai o weithgarwch dilynol ar ysgolion cynradd mawr ar ôl arolygiad nag ysgolion bach neu ganolig. Mae cyfran yr ysgolion cynradd yn y ddau gategori mwy difrifol o weithgarwch dilynol (gwelliant sylweddol a mesurau arbennig) yn debyg ar gyfer ysgolion cynradd bach a chanolig, ond mae'n is ar gyfer ysgolion cynradd mawr.
- 5 Mae deilliannau arolygu yn dda neu'n well mewn cyfran fwy o ysgolion cynradd mawr nag ysgolion cynradd bach a chanolig. Mae ysgolion cynradd bach a chanolig yn fwy tebygol o gael mwy o feysydd y mae angen eu gwella nag ysgolion cynradd mawr.
- 6 Mae safonau disgyblion yn dda neu'n well mewn cyfran uwch o ysgolion cynradd mawr nag ydynt mewn ysgolion cynradd bach a chanolig. Yn gyffredinol, bach yw'r gwahaniaeth yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn asesiadau athrawon y Cyfnod Sylfaen neu ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar gyfer ysgolion o wahanol faint.

<sup>7</sup> Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion: cydweithio â'r gymuned a gwasanaethau eraill, Estyn, 2011  
Mynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, Estyn, 2010  
Cyflawniad Academaidd a'r Hawl i Gael Prydau Ysgol Am Ddim yng Nghymru, 2012, SB 32/2013, Llywodraeth Cymru



- 7 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion cynradd safonau lles da neu well. Mae disgyblion yn cyflawni safonau lles da ym mhob ysgol gynradd fach iawn (y rhai sydd â 30 o ddisgyblion neu lai). Yn gyffredinol, mae gan ysgolion cynradd bach lefelau presenoldeb gwell nag ysgolion cynradd canolig a mawr.
- 8 Mae darpariaeth y cwricwlwm yn well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion bach, mae diffygion yn tueddu i fod yn narpariaeth pynciau sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r diffygion hyn yn amrywio o un ysgol i'r llall, ond yn aml maent wedi'u cysylltu â bylchau yn arbenigedd y staff.
- 9 Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well mewn 80% o ysgolion cynradd at ei gilydd, ond mae'r addysgu'n dda neu'n well mewn 72% o ysgolion cynradd bach iawn. Yn yr ysgolion hyn, mae tri grŵp oedran neu fwy ym mhob dosbarth ac mae'n rhaid i athrawon gynllunio a chyflwyno gwersi sy'n bodloni anghenion disgyblion o ystod oedran a gallu eang.
- 10 Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant.

### **Ysgolion uwchradd**

- 11 Mae angen llai o weithgarwch dilynol ar ysgolion uwchradd mawr ar ôl arolygiad nag ysgolion uwchradd bach a chanolig. Mae angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig ar ryw 4% o ysgolion uwchradd mawr, o gymharu â thua 20% o ysgolion bach a chanolig.
- 12 Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer ysgolion uwchradd mawr yn well na'r canlyniadau ar gyfer ysgolion uwchradd bach a chanolig ar gyfer bron pob un o'r mesurau.
- 13 Mae lles yn rhagorol mewn 33% o ysgolion uwchradd mawr o gymharu ag 14% o ysgolion uwchradd canolig a 4% o ysgolion uwchradd bach. Mae presenoldeb yn debyg ar gyfer ysgolion uwchradd bach a chanolig, ond yn well mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae ysgolion uwchradd mawr yn tueddu i gael gweithdrefnau mwy cynhwysfawr ar gyfer monitro presenoldeb ac ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldebau parhaus.
- 14 Mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig yn eithaf tebyg. Mae'n gryfach mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae ysgolion mawr yn tueddu i gael trefniadau gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol a sicrhau ansawdd, er nad yw'r systemau hyn wedi'u datblygu cystal mewn ysgolion bach a chanolig. Mae athrawon mewn ysgolion bach yn llai tebygol o addysgu eu pwnc arbenigol yn unig.
- 15 Yn gyffredinol, mae darpariaeth y cwricwlwm yn ehangach ac yn rhoi cydbwysedd gwell mewn ysgolion uwchradd mawr. Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd mawr yn darparu profiadau dysgu da neu well ar gyfer eu disgyblion, tra bod profiadau dysgu'n dda neu'n well ym mwyafrif yr ysgolion bach ac mewn llawer o ysgolion

canolig. Gall ysgolion uwchradd mawr gynnig ystod ehangach o opsiynau oherwydd darbodion maint. Mae ysgolion bach a chanolig yn fwy dibynnol ar bartneriaethau 14-19 i ddarparu ystod addas o gyrsiau.

- 16 Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well bron ym mhob un o'r ysgolion uwchradd mawr a arolygwyd. Mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well ym mwyafrif yr ysgolion canolig ac mewn llawer o ysgolion bach. Ym mhob ysgol lle mae perfformiad yn gryf, mae arweinyddiaeth yn dda neu'n well. Mewn ysgolion uwchradd bach a chanolig, gallai cynllunio dilyniant fod yn wan, a phan fydd aelodau allweddol o staff yn gadael yr ysgol, gall fod oedi rhy hir cyn y caiff eu set medrau ei ddisodli.

Ni chynhwyswyd unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn.
---